

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ionawr 2024 0300 200 6565
Amser: 14.00 Deisebau@senedd.cymru

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(Tudalennau 1 – 30)
- 2 **Deisebau newydd**
 - 2.1 P-06-1381 Gwrthodwch bob cynllun ar gyfer Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd, Parthau Atal Tagfeydd ac Ardollau Parcio mewn Gweithleoedd yng Nghymru
(Tudalennau 31 – 37)
 - 2.2 P-06-1382 Dylid gwahardd rhyddhau balwnau
(Tudalennau 38 – 44)
 - 2.3 P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza
(Tudalennau 45 – 51)
 - 2.4 P-06-1388 Dileu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10 y cant o orchudd coed i allu manteisio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd
(Tudalennau 52 – 61)
 - 2.5 P-06-1389 Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y gefnffordd trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais
(Tudalennau 62 – 69)
 - 2.6 P-06-1390 Rhoi diwedd ar bob bwyd â chymhorthdal yn y Senedd ac i staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol
(Tudalennau 70 – 72)
 - 2.7 P-06-1393 Dylid grymuso rhieni i ddewis: Yr hawl i gael eithriad a chyfranogiad cynhwysol yn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
(Tudalennau 73 – 83)
- 3 **Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**



- 3.1 P-06-1353 Datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer cefnffyrdd yng ngogledd Cymru i ogledd Cymru
(Tudalennau 84 – 86)
- 3.2 P-06-1345 Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai
(Tudalennau 87 – 90)
- 3.3 P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd
(Tudalennau 91 – 95)
- 3.4 P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu trydedd bont dros y Fenai
(Tudalennau 96 – 99)
- 3.5 P-06-1357 Llunio Cynllun Gweithredu Microblastigau newydd i Gymru?
(Tudalennau 100 – 108)
- 3.6 P-06-1366 Adfer y cyllid ar gyfer gwasanaethau Bysiau Cwm Taf 351 (Dinbych-y-pysgod i Bentywyn) a 352 (Dinbych-y-pysgod i Gilgeti)
(Tudalennau 109 – 110)
- 3.7 P-06-1370 Achub y ddarpariaeth mân anafiadau dros nos yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni
(Tudalennau 111 – 113)
- 3.8 P-06-1373 Dylid atal Llywodraeth Cymru rhag gwastraffu £4 miliwn ar ddatblygiad preifat "Skyline" ar Fynydd Cilfái, Abertawe
(Tudalennau 114 – 118)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1381 Gwrthodwch bob cynllun ar gyfer Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd, Parthau Atal Tagfeydd ac Ardollau Parcio mewn Gweithleoedd yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR23/7337-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1381

Teitl y ddeiseb: Gwrthodwch bob cynllun ar gyfer Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd, Parthau Atal Tagfeydd ac Ardollau Parcio mewn Gweithleoedd yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Ar adeg pan fo pobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw, nid yw'n ymarferol i bobl fynd i gostau er mwyn gorfod teithio rhwng ac ar draws trefi a dinasoedd Cymru. Bydd cynlluniau fel yr un sy'n cael ei ystyried yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn effeithio'n anghymesur ar y rheiny sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, er gwaetha'r honiadau bod pobl mewn ardaloedd tlotach yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar. Mae pobl Cymru am ei gwneud yn gwbl glir NAD YDYM yn cefnogi gweithredu'r cynlluniau hyn. Cynllun gwneud arian yn unig yw'r cynlluniau ar gyfer taliadau ffyrdd, parthau atal tagfeydd ac ardoll parcio mewn gweithleoedd.



Dyma linc i'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer Caerdydd sy'n dangos yn glir mai'r bwriad yw rhoi tâl arall ar ddefnyddwyr ffyrdd.

<https://keepingcardiffmoving.co.uk/cy/project/cynllun-tal-defnyddwyr-ffyrdd-caerdydd/>

1. Y cefndir

Mae'r syniad o gyflwyno cynlluniau i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd fel arf i annog pobl i beidio â theithio mewn ceir preifat wedi cael ei drafod yn helaeth. Mae [Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#) wedi ymrwmo i ddatblygu fframwaith ar gyfer "codi tâl teg a chyfartal ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru" ac mae'r [Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol](#) yn cynnwys amserlen ar gyfer y gwaith hwn, sef rhwng 2022 a 2026.

Cyn hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu [adolygiad annibynnol o gynlluniau i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru](#), a ystyriodd yr achos o blaid ac yn erbyn y syniad.

Yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2020, '[Covid-19 Recovery: Renewing the Transport System](#)', mae'r Campaign for Better Transport yn galw am ddulliau newydd o greu reffeniw, fel ardollau parcio yn y gweithle a chodi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. Yn fwy diweddar, mae adroddiad Centre for Cities, a gyhoeddwyd yn 2023, sef [Understanding transport in Wales' cities](#) yn argymhell codi tâl i atal tagfeydd neu ardoll parcio yn y gweithle yng Nghaerdydd, ac ardoll parcio yn y gweithle yn Abertawe, Casnewydd a Wrecsam i newid y ffordd mae pobl yn teithio.

Mae'r deisebydd yn dadlau yn erbyn gorfodi modurwyr i ysgwyddo costau ychwanegol o ystyried y problemau costau byw presennol. Fel y nodwyd yn [erthygl Ymchwil y Senedd yn 2020](#), roedd Aelodau o'r Senedd ddiwethaf (y Cynulliad ar y pryd) yn pryderu am y cynlluniau ar gyfer Caerdydd ar y pryd.

Pwerau Llywodraeth Cymru

Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru bwerau o dan [Ddeddf Trafnidiaeth 2000](#) (Deddf 2000) i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar y [rhwydwaith cefnffyrdd a](#)

thraffyrdd mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Mae Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (y Bil), a basiwyd gan y Senedd ym mis Tachwedd, ond nad yw mewn grym eto, yn diwygio Deddf 2000 i ganiatáu i'r Llywodraeth gyflwyno cynlluniau er mwyn lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil hefyd yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru i gychwyn darpariaethau perthnasol o dan Ddeddf 2000 i ganiatáu i awdurdodau lleol (naill ai ar eu pennau eu hunain, neu mewn partneriaeth ranbarthol) gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ffyrdd lleol.

Parthau Aer Glân

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y pwerau sy'n cael eu defnyddio i greu Parthau Aer Glân lle gellid codi tâl ar yrwyr cerbydau penodol am deithio mewn parth diffiniedig. Yn ystod dadl cyfnod pedwar ar y Bil, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS:

...Byddai unrhyw gynlluniau o'r fath yn darparu mesur pan fetha popeth arall i fynd i'r afael â materion ansawdd aer lleol ... Dim ond pan fydd tystiolaeth yn gwneud achos digon cymhellol dros gynlluniau i fynd i'r afael â phroblemau llygredd aer parhaus y caiff parthau o'r fath eu cyflwyno, a lle nad yw dulliau eraill wedi bod yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Ar hyn o bryd, mae saith Parth Aer Glân yn Lloegr a phedwar Parth Allyriadau Isel (lle mae mynediad i ardal benodol wedi'i gyfyngu yn achos y cerbydau sy'n llygru fwyaf) yn yr Alban.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o dorri terfynau ansawdd aer statudol yn y Deyrnas Unedig yn digwydd wrth i nitrogen deuocsid grynhoi ar ymyl ffyrdd, ac mae 80% o hynny'n deillio o drafnidiaeth ffyrdd. Amcangyfrifir bod aer gwael yn achosi rhwng 29,000 a 43,000 o farwolaethau bob blwyddyn.

Yn 2018, cafodd achos llys ei ddwyn yn erbyn Llywodraeth Cymru am dorri terfynau nitrogen deuocsid ac, yn dilyn hynny, mae wedi cyflwyno terfynau cyflymder o 50mya mewn pum safle ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Yn ôl adroddiadau yn y wasg, gellid cyflwyno Parthau Aer Glân mewn dau o'r safleoedd hyn (yr M4 yng Nghasnewydd a'r A740 ym Mhontypridd) os nad yw'r terfyn cyflymder is yn lleihau llygredd.

Ardoll parcio yn y gweithle

Mae'r ardoll parcio yn y gweithle yn codi tâl ar fusnesau am eu mannau parcio. Hyd yma dim ond un ardoll sy'n cael ei defnyddio ym Mhrydain Fawr, a hynny yn Nottingham.

Argymhellodd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Comisiwn Burns), y dylid cyflwyno ardoll parcio yn y gweithle yng Nghaerdydd a Chasnewydd unwaith y bydd opsiynau trafndiaeth newydd ar gael a bod fframwaith polisi trosfwaol ar waith. Yn y cyfamser mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (sydd hefyd yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Burns) yn awgrymu "na fyddai'n briodol cyflwyno ardoll parcio yn y gweithle yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd oherwydd diffyg dewisiadau amgen i'r car".

Cynlluniau yng Nghaerdydd

Mae'r deisebydd yn cyfeirio'n benodol at gynlluniau yng Nghaerdydd i gyflwyno cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffordd. Dywed Cyngor Caerdydd ei fod am "edrych ar ystod o gynlluniau gan gynnwys, ymhlith eraill, Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd, Parthau Tagfeydd, Parthau Aer Glân ac Ardollau Parcio mewn Gweithleoedd". Mae'n awgrymu y byddai unrhyw gynllun o'r fath yn cael ei weithredu o tua 2027 ymlaen.

Cynigiwyd cynlluniau ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn wreiddiol yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth a gyhoeddodd y Cyngor yn 2020. Yn dilyn y cynigion hyn, ysgogwyd Llywodraeth Cymru i gomisiynu ei hadolygiad annibynnol o gynlluniau i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a drafodwyd yn gynharach.

2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd dyddiedig 12 Ionawr, mae'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, Lee Waters AS, yn nodi y byddai'r Llywodraeth yn mabwysiadu cynlluniau codi tâl mewn Parthau Aer Glân dim ond pan fyddai popeth arall wedi methu. Mae'n amlinellu bod Parthau Aer Glân yn "fesurau wrth gefn rhagofalus" ar gyfer yr A470 ym Mhontypridd a'r M4 yng Nghasnewydd, fel y nodwyd yn gynharach yn y papur hwn.

Dywed y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd wedi cynnal trafodaethau ynghylch y cynlluniau.

Er bod y llythyr yn awgrymu y gellid defnyddio cynlluniau i gyrraedd targedau o ran newid dulliau o deithio ac i ddarparu cyllid ar gyfer “gwelliannau sylweddol mewn trafndiaeth gyhoeddus”, mae'r Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod:

...angen cynllunio cynlluniau codi tâl i ddefnyddwyr ffyrdd yn ofalus er mwyn osgoi canlyniadau niweidiol anfwriadol, gan gynnwys cynyddu rhwystrau i gyflogaeth a datgysylltu'r rhai ar incwm isel.

3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Mae'r syniad o godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd wedi'i drafod yn y Senedd droeon, gan gynnwys wrth graffu ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) fel y trafodwyd uchod.

Ym mis Hydref 2023 [gofynnodd Sam Rowlands AS](#) gwestiwn i Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, am ardollau parcio yn y gweithle. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud nad oedd dim trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag unrhyw gyngor ar hyn o bryd yn y cyswllt hwn.

Ym mis Tachwedd 2023 [gofynnodd Andrew RT Davies AS](#) a oedd gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i fabwysiadu unrhyw rai o'r argymhellion yn adroddiad Centre for Cities (y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y papur hwn). Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd ganddi “unrhyw gynlluniau i fwrw ymlaen â'i argymhellion ynghylch taliadau atal tagfeydd, codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, cyflwyno terfynau cyflymder ar gyfer bysiau nac ardollau parcio yn y gweithle”.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1381
Ein cyf/Our ref MA/LW/02766/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

12 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref yn amgáu P-06-1381 - Gwrthod yr holl gynlluniau ar gyfer Taliadau i Ddefnyddwyr y Ffyrdd, Parthau Tagfeydd ac Ardoll Parcio yn y Gweithle yng Nghymru.

Mae'r pŵer i godi tâl cyffredinol ar y ffyrdd ac i dderbyn unrhyw refeniw yn nwylo Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Drafnidiaeth. Mae Deddf Trafnidiaeth 2000 yn darparu pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd o dan amgylchiadau cyfyngedig. Mae Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn ehangu'r amgylchiadau y gellir cyflwyno cynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd, gan alluogi cynlluniau ar gyfer lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng nghyffiniau'r ffordd.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar waith i gyflwyno taliadau i fodurwyr ar rwydwaith cefnffyrdd a reolir gan Lywodraeth Cymru a byddai cynlluniau'n cael eu hystyried fel dewis olaf i fynd i'r afael â manau problemus llygredd aer parhaus. Mae Parthau Aer Glân wedi cael eu nodi fel 'mesurau rhagofalus a ddargedwir' ar gyfer yr A470 Pontypridd a'r M4 Casnewydd yn ein Cynllun Atodol i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd 2017.

Rydym wedi nodi yn Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'n Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, y byddwn yn cefnogi systemau gwefru teg i ddefnyddwyr y ffyrdd sy'n darparu buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi. Mae gan wefru gan ddefnyddwyr ffyrdd y potensial i wneud defnydd mwy effeithlon o'r rhwydwaith ffyrdd, gan leihau tagfeydd a llygredd. Fodd bynnag, mae angen cynllunio cynlluniau codi tâl i ddefnyddwyr ffyrdd yn ofalus er mwyn osgoi canlyniadau niweidiol anfwriadol, gan gynnwys cynyddu rhwystrau i gyflogaeth a datgysylltu'r rhai ar incwm isel.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 36
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd effaith codi tâl ar ddefnyddwyr y ffyrdd ar yr economi yn dibynnu ar y math o daliadau a sut y defnyddir y refeniw sy'n deillio o hynny. Mae codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn aml yn cael ei gyflwyno fel rhywbeth annheg. Fodd bynnag, dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fod gan yr aelwyd gyffredin â char yng Nghymru incwm sydd 69% yn fwy nag aelwyd debyg heb gar ac, felly, fod codi taliadau sy'n helpu i wella dulliau o deithio heblaw'r car yn flaengar ac yn cefnogi'r rhai ar incwm isel.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chyngor Caerdydd i drafod eu cynlluniau ar gyfer gwelliannau i drafnidiaeth yng Nghaerdydd. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau ar godi tâl ar ddefnyddwyr y ffordd. Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried y potensial ar gyfer cynllun 'talw defnyddwyr ffyrdd' i helpu i leihau effeithiau niweidiol llygredd aer, cefnogi gweithredu ar newid hinsawdd, a mynd i'r afael â thagfeydd. Trwy Ddeddf Trafnidiaeth 2000, gall Gweinidogion Cymru roi pwerau i awdurdodau lleol weithredu cynlluniau lleol. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau trwyddedu ar gyfer codi taliadau ar ddarparu parcio yn y gweithle. Gall cyflogwyr dalu'r taliadau hyn neu eu trosglwyddo i staff sy'n defnyddio'r manau parcio.

Gallai cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd lleol, ac ardoll parcio yn y gweithle, gyflawni yn erbyn ein targedau newid moddol a darparu cyllid ar gyfer gwelliannau sylweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol gan y byddai'r awdurdodau lleol yn derbyn y refeniw. Rhaid i'r ffrydiau refeniw posibl hyn yn y dyfodol gael eu defnyddio er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau o ran trafnidiaeth leol a gallent gyfrannu at y gwariant sydd ei angen i wella seilwaith trafnidiaeth neu ddarparu prisiau tocynnau rhatach.

Yn gywir,



Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Dylid gwahardd rhyddhau balwnau

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR23/7337-4

Rhif y ddeiseb: P-06-1382

Teitl y ddeiseb: Dylid gwahardd rhyddhau balwnau

Geiriad y ddeiseb: Mae'n ymddangos bod rhyddhau balwnau yn fwy cyffredin fyth er gwaethaf y niwed maen nhw'n ei achosi. Maent yn lladd anifeiliaid ac yn llygru a niweidio ein hamgylchedd. Mae ffyrdd llai niweidiol eraill y gall pobl anrhydeddu anwyliaid sydd wedi marw. Hyd yn oed lle mae gwaharddiadau'n bodoli, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn ofni gweithredu ar hyn.

1. Y cefndir

Mae rhyddhau balwnau fel arfer yn cael ei wneud fel rhan o ddigwyddiad coffaol neu ddigwyddiad dathlu. Unwaith y caiff y balwn ei ryddhau ni ellir ei reoli, fodd bynnag, a daw'n sbwriel. Gall sbwriel balwnau fod yn beryglus i dda byw a bywyd gwyllt.

Mae ymchwil gan Cadwch Gymru'n Daclus yn egluro y gall anifeiliaid gamgymryd sbwriel balwnau am fwyd, gall y sbwriel hwn greu rhwystr yn eu systemau treulio ac achosi i anifeiliaid newynu, a gall y llinyn sydd ynghlwm â balwnau ddal neu dagu anifeiliaid.

Yn yr un modd, dywed y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS), y gall sbwriel balwnau gael ei fwyta gan fywyd morol, glymu rownd crwbanod môr neu adar y môr a gall arwain at farwolaeth gynamserol o ganlyniad i dagu, newynnu neu



grogi. Mae'r cwmni Co-op Funeralcare yn amlygu, er bod balwnau wedi'u gwneud o blastig, rwber neu ffoil yn dadelfennu, gall eu gronynnau aros yn yr amgylchedd am ddegawdau.

Ym mis Hydref 2023 adroddwyd y bu farw morlo bychan yng Ngogledd Cymru ar ôl mynd yn sownd mewn llinyn balŵn ar draeth.

Tynnodd erthygl ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y “canlyniadau anfwriadol a difrifol i fywyd gwyllt a'u cynefinoedd” yn sgil rhyddhau balwnau:

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn sawl adroddiad am ryddhau balwnau ar rai o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cymru neu gerllaw iddynt. Mae'r rhain yn ardaloedd sy'n gynefinoedd i rai o'n bywyd gwyllt prinnaf sydd dan fwyaf o fygythiad.

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn tynnu sylw y gall gadael sbwriel ar lawr gwlad arwain at ddirwy, ond nad yw gollwng balŵn neu lusern, sydd yr un mor problemus, yn cael ei drin yn yr un ffordd.

1.1. Camau gweithredu awdurdodau lleol

Mae nifer o awdurdodau lleol Cymru wedi gwahardd rhyddhau balwnau ar eu tir. Fodd bynnag adroddwyd bod swyddogion awdurdodau lleol “yn wylidwrus o anfon staff i wynebu'r rhai sy'n galaru oherwydd natur sensitif yr achlysur”.

1.2. Dewisiadau eraill

Mae'r Co-op Funeralcare a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn amlygu y gall balwnau 'bioddiraddadwy' neu 'gyfeillgar i'r amgylchedd' gymryd blynyddoedd i ddadfeilio yn yr amgylchedd. Mae'r ddau sefydliad yn cynnig awgrymiadau ar gyfer dewisiadau eraill ar wahân i ryddhau balwnau gan gynnwys:

- Plannu coed neu flodau;
- Chwythu swigod;
- Chwalu hadau blodau gwyllt; a
- Goleuo canhwyllau.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywed Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, nad yw'n credu y byddai cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gollwng balwnau yn gymesur ac ni fyddai gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd:

Yn hytrach, rydym yn parhau i weithio gydag eraill i annog dulliau eraill a mwy cynaliadwy o goffáu fel y bo'n briodol. Er enghraifft, gyda'n partneriaid rydym yn hyrwyddo coetiroedd coffaol fel rhan o brosiect Coedwig Genedlaethol Cymru. Rydym hefyd wedi ysgrifennu o'r blaen at sawl sefydliad elusennol yn gofyn iddynt ystyried yr effeithiau ehangach, er enghraifft sbwriel, sy'n deillio o ryddhau balwnau yn eu digwyddiadau..

Dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn 'parhau i weithio gyda sefydliadau amgylcheddol i nodi ffyrdd ychwanegol o godi ymwybyddiaeth o'r problemau sbwriel sy'n gysylltiedig â rhyddhau balwnau, ynghyd â hyrwyddo dewisiadau eraill i'r arfer hwn, gan gofio bod y mater hwn yn un sensitif'.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn 2012, cafodd Pwyllgor Deisebau y Pedwerydd Cynulliad ddeiseb P-04-385, a oedd yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd i "ddeddfu yn erbyn rhyddhau balwnau a llusernau Tsieineaidd (neu awyr) i'r awyr yn fwriadol". Cyflwynwyd y ddeiseb gan Eco-bwyllgor Rhanbarthol Caerdydd, sef grŵp o ddisgyblion a oedd yn gynrychiolwyr o Eco-ysgolion Baner Werdd Caerdydd, a chasglodd 564 o lofnodion.

Cysylltodd y Pwyllgor Deisebau â'r Gweinidog cyfrifol ar y pryd, sef John Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Yn ei ateb, cydnabu'r Gweinidog risgiau posibl rhyddhau balwnau a llusernau, a dywedodd y byddai ei adran yn datblygu sylfaen dystiolaeth ar effaith rhyddhau llusernau a balwnau.

Mewn cwestiwn ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2023, gofynnodd Darren Millar AS, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried "gwahardd yr arfer o ryddhau balwnau yn yr awyr agored, o ystyried yr effaith andwyol ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd". Atebodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, gan ddweud:

The Welsh Government has no plans to introduce legislation to ban balloon releases.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1382
Ein cyf/Our ref LW/02803/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1382 am ryddhau balwnau.

Er fy mod yn cydnabod y pryderon ynghylch yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â rhyddhau balwnau, defnyddir digwyddiadau o'r fath yn sensitif i goffáu colli anwyliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o sensitifrwydd o'r fath ac o ganlyniad, nid yw'n credu y byddai cyflwyno deddfwriaeth i wahardd rhyddhau balwnau yn gymesur ac ni fyddai gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd. Yn hytrach, rydym yn parhau i weithio gydag eraill i annog dulliau eraill a mwy cynaliadwy o goffáu fel y bo'n briodol. Er enghraifft, gyda'n partneriaid rydym yn hyrwyddo coetiroedd coffaol fel rhan o brosiect Coedwig Genedlaethol Cymru.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu o'r blaen at sawl sefydliad elusennol yn gofyn iddynt ystyried yr effeithiau ehangach, er enghraifft sbwriel, sy'n deillio o ryddhau balwnau yn eu digwyddiadau. Mabwysiadwyd dull tebyg gydag Awdurdodau Lleol Cymru ac mae'r rhan fwyaf bellach yn gweithredu polisi gwirfoddol o annog rhyddhau balwnau a llusernau awyr o dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 42
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau amgylcheddol fel Cadwch Gymru'n Daclus i nodi ffyrdd ychwanegol o godi ymwybyddiaeth o'r materion sbwriel sy'n gysylltiedig â rhyddhau balŵn, ynghyd â hyrwyddo dewisiadau amgen i'r arfer hwn gan gofio bod y mater hwn yn un sensitif.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

P-06-1382 Ban Balloon Releases - Correspondence from the petitioner to the Committee, 17 January 2024

Good afternoon,

In response to the attached document I have to disagree with points raised.

I am aware that balloon releases are sensitive and are generally held to commemorate people. However, this does not justify the harm they cause. There are many alternatives including lighting candles. When people can receive fines for feeding pigeons on the street as this could be classed as littering then it is absurd that hundreds of balloons can be released on a single occasion.

Balloon releases seem to be gathering momentum at a time when the impact of such events is being realised. Many people in the general public do not agree with such releases and there needs to be a cultural change.

It takes bravery to make changes but in recent years Wales has seemed to be very forward thinking in terms of animal welfare and the environment. Balloon releases do not benefit anyone and contradict this progress.

Many thanks for considering the petition.

Yours sincerely,

Cymorth dyngarol i Gaza

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR24/7752-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1387

Teitl y ddeiseb: Darparu cymorth dyngarol i Gaza

Geiriad y ddeiseb:

Mae Gaza a phobl Palesteina yn wynebu argyfwng dyngarol wrth i fomiau syrthio yn ddiwahân ar adeiladau preswyl, ysgolion, ysbytai, mosgiau, eglwysi, a gwersylloedd ffoaduriaid. Mae miloedd o sifiliaid diniwed, gan gynnwys dros 3,500 o blant, wedi cael eu lladd, gyda llawer mwy wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu dadleoli. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi cymorth dyngarol i Wcráin yn dilyn ymosodiad Rwsia yn 2022. Dylai nawr wneud popeth o fewn ei gallu i ddarparu cymorth i bobl Palesteina.



1. Y cefndir

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi cymorth dyngarol mewn ymateb i apeliadau rhyngwladol, megis taliad o £100,000 i'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) [Apêl Llifogydd Pacistan](#) yn 2022-23 a [£300,000 i Apêl Daeargryn Türkiye a Syria y Pwyllgor](#) i bobl yr effeithiodd y daeargrynfeydd arnynt ym mis Chwefror 2023.

Fel y caiff ei gydnabod yn y ddeiseb, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth dyngarol hefyd i Wcráin yn dilyn goresgyniad Rwsia ar 28 Chwefror 2022. Ar 1 Mawrth 2022, cyhoeddodd y Prif Weinidog [£4 miliwn o gymorth "ariannol a dyngarol"](#). Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn:

- Asesu pa offer meddygol dros ben fyddai fwyaf defnyddiol i'w darparu;
- Yn barod i groesawu pobl sydd angen gadael Wcráin ac sydd eisiau gwneud hynny;
- Annog Llywodraeth y DU i'w gwneud yn haws i ddinasyddion Wcráin ddod i'r DU; ac
- Annog unrhyw un sy'n gallu rhoi i'r Groes Goch Brydeinig, UNICEF UK neu UNHCR UK, i wneud hynny.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfraniad ariannol o gymorth dyngarol. Mae ei hymateb wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth cydlyniant cymunedol, ac archwilio llwybrau posibl i'r DU ar gyfer gwladolion Prydain sydd wedi'u dal yn y gwrthdaro [mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol](#).

Ar 14 Tachwedd 2023, pleidleisiodd Llywodraeth Cymru o blaid [cynnig y Senedd i gydsynio i reoliadau Llywodraeth y DU](#) yn ymestyn cymhwysedd budd-daliadau tai y DU i'r rhai sy'n ffoi rhag y gwrthdaro rhwng Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus (mae amodau'n berthnasol).

Yn ôl [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin](#), mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £87 miliwn ar gyfer 2023-24 i'r Tiriogaethau Palesteinaidd dan Oresgyniad, sy'n cynnwys £60 miliwn a gyhoeddwyd drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Mae [Llywodraeth Yr Alban wedi darparu £750,000](#) i Asiantaeth Rhyddhad a Gwaith y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid Palesteina yn y Dwyrain Agos (UNRWA) [Apêl Flash](#).

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

2.1. Ymateb i alwadau Plaid Cymru i ddarparu cymorth

Yn ystod [Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#) ar 17 Hydref 2023, gofynnodd Arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth AS, a fyddai Llywodraeth Cymru yn gwneud "cyfraniad, yn cynnwys cyfraniad ariannol, tuag at yr ymgyrch dyngarol yna yn Gaza".

Disgrifiodd y Prif Weinidog ymateb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio ei [Fforwm Cymunedau Ffydd](#), a'i bod yn "awyddus" i helpu pobl yng Nghymru a chefnogi gweithredu ar lefel y DU. Ni chyfeiriodd yn benodol at wneud cyfraniad ariannol.

Ar 24 Hydref 2023, aeth Mabon ap Gwynfor MS [ati i ailadrodd galwad Plaid Cymru](#) i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth dyngarol, a gofyn am sicrwydd ei bod yn "defnyddio pob grym sydd ganddi" i alw am gadoediad. Ymatebodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS:

Gallaf i eich sicrhau chi fod Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau yr ydych chi'n cyfeirio atyn nhw.

Ailadroddodd fod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â grwpiau ffydd yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth. Mewn ymateb i [sylw Nation.Cymru](#) yn dilyn y drafodaeth, dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru:

The First Minister has strongly condemned the appalling attacks carried out by Hamas and expressed his deep concern about the humanitarian situation in Gaza. He has called on the international community to come together to work again for a lasting peace.

Yn ystod [dadl. Plaid Cymru ar y gwrthdaro yn Israel a Gaza](#) a arweiniodd at bleidlais o blaid cadoediad, amlinellodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r cyfrifoldebau yn ein dwylo drwy wneud popeth yn ein gallu i gefnogi diogelwch cymunedol a hyrwyddo cydlyniant.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfarfodydd a gynhaliwyd gan y Gweinidog a'r Prif Weinidog â chynrychiolwyr cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig yng Nghymru.
- Cyfarfodydd â chynrychiolwyr y Fforwm Cymunedau Ffydd ac ymweld ag addoldai i glywed yn uniongyrchol gan aelodau'r cymunedau yng Nghymru a gaiff eu heffeithio.
- Bod yn glir "nad oes lle i gasineb yng Nghymru, a rhaid i bawb ohonom chwarae ein rhan a sefyll yn erbyn rhagfarn.". Esboniodd y Gweinidog y camau a gymerwyd gyda'r Gweinidog Addysg i drafod ag arweinwyr ffydd sut y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo dealltwriaeth a mynd i'r afael â gwrthsemitiaeth, Islamoffobia a phob math o gasineb sy'n seiliedig ar ffydd mewn lleoliadau addysg.
- Amlinellodd y Gweinidog sut mae canolfan gymorth troseddau casineb Cymru, a gaiff ei rhedeg gan Cymorth i Ddiodefwrwyr Cymru, yn gweithio ochr yn ochr â'r pedwar heddlu i fonitro cynnydd mewn troseddau casineb gwrthsemitig ac Islamoffobia yng Nghymru.
- Gweithgareddau a gynhelir fel rhan o raglen cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru, megis monitro tensiynau cymunedol a chysylltu ag arweinwyr ffydd.

2.2. Yr ymateb i'r ddeiseb

Wrth ymateb i'r ddeiseb ar 17 Ionawr 2024, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn rhaid cael ymdeimlad newydd o frys ymhlith y gymuned ryngwladol i sicrhau cadoediad llawn a pharhaol, er mwyn dod â'r lefelau annioddefol o drais a dioddefaint i ben cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r rhoi'r gorau i drais fod yn llwyfan hanfodol ar gyfer proses wleidyddol hirdymor a phenderfynol y gallwn weithio tuag ati i sefydlu datrysiad dwy wladwriaeth yn seiliedig ar wladwriaeth Balesteiniaidd sofran ac Israel ddiogel.

Gan gyfeirio at ddarparu cymorth dyngarol i Gaza, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi cyfrannu at nifer o apeliadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC). Mae'r Pwyllgor Argyfyngau Brys yn monitro'r sefyllfa ddyngarol yn Gaza ac mae'n asesu a yw'n bodloni ei dri brif faen prawf ar gyfer lansio apêl. Tynnodd y Gweinidog sylw at un maen prawf allweddol, sef:

... member agencies can effectively spend money raised and they believe that only a lasting ceasefire would allow them the opportunity to

effectively provide the desperately needed aid to the Palestinians living in Gaza.

Dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru "yn parhau i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau hynny yn ein dwylo nii," gan gynnwys mynd i'r afael ag Islamoffobia a gwrthsemitiaeth, "er mwyn sicrhau y gall pob cymuned fyw gyda'i gilydd yng Nghymru yn heddychlon a chyda pharch at ei gilydd".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1387
Ein cyf/Our ref JH-/01071/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr ynghylch deiseb a gawsoch ar Ddarparu Cymorth Dyngarol i Gaza.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn rhaid cael ymdeimlad newydd o frys ymhlith y gymuned ryngwladol i sicrhau cadoediad llawn a pharhaol, er mwyn dod â'r lefelau annioddefol o drais a dioddefaint i ben cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r rhoi'r gorau i drais fod yn llwyfan hanfodol ar gyfer proses wleidyddol hirdymor a phenderfynol y gallwn weithio tuag ati i sefydlu datrysiad dwy wladwriaeth yn seiliedig ar wladwriaeth Balesteiniaidd sofran ac Israel ddiogel.

Ni all fod unrhyw ddiogelwch i unrhyw un yn Israel a Phalestina heb heddwch tymor hir, sy'n deg i Israeliadaid a Phalestiniaid. Rwyf wedi cwrdd ag arweinwyr Mwslimaidd o bob rhan o Dde Cymru ac wedi gwyllo goleuo menorah cyhoeddus y tu allan i'r Senedd am seithfed noson Hanukkah. Mae'n amlwg bod y digwyddiadau yn Gaza ac yn Israel yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau Mwslimaidd ac Iddewig yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau hynny yn ein dwylo ni, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag Islamoffobia a gwrthsemitiaeth, er mwyn sicrhau y gall pob cymuned fyw gyda'i gilydd yng Nghymru yn heddychlon a chyda pharch at ei gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi cyfrannu at nifer o apeliadau a gynhaliwyd gan Bwyllgor Argyfwng Trychinebau DEC ar ran 15 sefydliad dyngarol byd-eang. Rydym hefyd yn darparu cyllid i alluogi'r DEC i weithio'n fwy effeithiol yng Nghymru. Mae'r DEC yn lansio apêl ar gyfer argyfyngau megis trychineb neu argyfwng dyngarol pan fodlonir nifer o feini prawf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 50
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Un o'r meini prawf hynny yw y gall aelod-asiantaethau wario arian a godir ac maent yn credu mai dim ond cadoediad parhaol fyddai'n rhoi cyfle iddynt ddarparu'r cymorth sydd ei wir angen i'r Palestinaid sy'n byw yn Gaza.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first letter 'J'.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

P-06-1388 Dileu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10 y cant o orchudd coed i allu manteisio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR24/7752-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1388

Teitl y ddeiseb: Dileu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10 y cant o orchudd coed i allu manteisio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd

Geiriad y ddeiseb: Mae Llywodraeth Cymru yn dylunio cynllun newydd i gefnogi ffermwyr, sef y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Y Cam Gweithredu Cyffredinol mwyaf dadleuol sy'n rhaid ei gymryd i ymuno â'r cynllun hwn yw'r gofyniad i ffermwr gael o leiaf 10 y cant o orchudd coed, heb gynnwys perthi, yn ogystal â 10 y cant o gynefin. Am amryw resymau, ni all llawer o ffermwyr blannu coed ar 10 y cant o'u tir. Dylid gostwng canran y gorchudd coed sy'n ofynnol i allu manteisio ar y cynllun i lefel gyraeddadwy er mwyn caniatáu i gynifer o ffermwyr â phosibl ymuno ag ef.

Rhagor o fanylion

Bydd lleihau arwynebedd y tir ffermio cynhyrchiol yn golygu bod llai o fwyd yn cael ei gynhyrchu. Bydd hyn yn effeithio ar bob diwydiant sy'n gwasanaethu'r sector amaethyddol.

Bydd lefel isel o ddefnydd o'r cynllun yn niweidiol i economi wledig Cymru. Bydd llawer o ffermwyr sy'n cael taliadau gan Gynllun y Taliad Safonol ar hyn o bryd, ond sydd ddim yn gymwys i gael taliadau gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ei chael yn anodd goroesi.



Gellid cynnwys y lefelau uwch o orchudd coed yn y Camau Gweithredu Dewisol.

1. Y cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi amaethyddol newydd – y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** (SFS) arfaethedig. Ers i'r DU ymadael â'r UE, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal system gymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE yng Nghymru. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff yr SFS ei gyflwyno o 2025 ymlaen, gyda'r system PAC yn dirwyn i ben yn raddol.

Mae'r **cynigion yn yr SFS** yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (tan 7 Mawrth). O dan y cynigion, byddai ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gamau gweithredu uwchlaw'r gofynion cyfreithiol sylfaenol, gyda chymorth i ffermwyr o ran canlyniadau amgylcheddol, lles anifeiliaid a chanlyniadau cymdeithasol.

Byddai'n ofynnol i bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn yr SFS (fel y'i cynigir) gyflawni cyfres o 'Weithredodd Cyffredinol' er mwyn cael 'Taliad Sylfaenol Cyffredinol' ar eu cyfer. Yna, yn seiliedig ar hynny, byddai gweithredoedd 'Opsynol' a 'Chydweithredol' yn fodd iddynt gael eu gwobrwyo ymhellach.

Mae'r cynlluniau presennol yn dilyn sawlymgyngghoriad (yn fwyaf diweddar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft yn 2022) a phrosiect cydlunio lle mae ffermwyr wedi cyfrannu at ddyluniad y cynllun.

Sylwer: cafodd y ddeiseb hon ei chyflwyno cyn y cynigion diweddaraf y manylir arnynt isod.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ystod y broses o ddatblygu'r SFS, un asgwrn cynnen oedd y Gweithredoedd Cyffredinol arfaethedig i ffermwyr gael o leiaf 10 y cant o orchudd coed ar eu ffermydd, ac i'r gorchudd coed hwnnw gael ei reoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Byddai coed a choetiroedd presennol yn cael eu cyfrif tuag at y lleiafswm gofynnol hwn.

Cynigiwyd y gofyniad hwn yn ymgyngghoriad 2022 (tudalen 38) fel ffordd o weithio tuag at y targed i greu 43,000ha o goetiroedd newydd erbyn 2030 i helpu i liniaru newid hinsawdd. Roedd y gofyniad hwn o 10 y cant o orchudd coed ochr yn ochr â Gweithred Gyffredinol arall i ffermwyr reoli o leiaf 10 y cant o'u tir i gynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol.

Roedd gan ffermwyr bryder na fyddai'r Weithred Gyffredinol hon yn ymarferol, ac y byddai felly'n atal cymryd rhan yn yr SFS. Gwnaeth grwpiau amgylcheddol groesawu'r gofyniad, ond pwysleisiwyd yr egwyddor o gael 'y goeden gywir yn y lle cywir' i sicrhau'r manteision amgylcheddol.

Dyma rai o'r dadleuon yn erbyn y gofyniad o gael 10 y cant o orchudd coed:

- bydd yn anodd i rai ffermwyr i'w gyflawni os nad yw eu tir yn addas ar gyfer plannu coed e.e. ffermydd ucheldir a ffermydd arfordirol;
- efallai na fydd modd i ffermwyr tir comin a ffermwyr tenant ei gyflawni oherwydd cyfyngiadau yn eu contractau;
- byddai'n stopio cynhyrchu ar y tir, gyda phryderon cysylltiedig ynghylch hyfywedd busnes a sicrwydd bwyd;
- gallai coed a blennir mewn mannau anghywir - e.e. ar fawndir - gael effaith andwyol ar yr amgylchedd; a
- gallai diffyg planhigfeydd lleol ar gyfer coed brodorol i ddarparu glasbrennau beri risg o afiechydon yn lledaenu pe bai angen mewnforio coed.

Dyma rai o'r manteision a nodwyd:

- lleiniau cysgod;
- llochesau i anifeiliaid;
- bioddiogelwch (pellter rhwng ffermydd cyfagos);
- amddiffyn ansawdd dŵr a lleiniau clustogi;
- gwella bioamrywiaeth; a
- lliniaru newid hinsawdd.

Gellir darllen mwy yn y [Dadansoddiad o adborth i gynigion amlinellol y cynllun a'r adroddiad ar gydlunio](#).

Yn dilyn pryderon y rhanddeiliaid, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) ei bod yn edrych ar newidiadau, felly nid 10 y cant o'r daliad cyfan fyddai'r gofyniad ar gyfer gorchudd coed, ond 10 y cant o'r arwynebedd sy'n weddill ar ôl nodi'r manau anaddas.

Diweddarwyd y cynigion a [chyhoeddwyd yr ymgynghoriad terfynol ar yr SFS](#) ar 14 Rhagfyr 2023. Mae'r Weithred Gyffredinol ynghylch gorchudd o goed wedi cael ei diwygio (tudalen 42 o'r ymgynghoriad) ers 2022:

Rydym wedi addasu'r gofyn hwn am 10% o orchudd coed er mwyn tawelu'r pryderon a godwyd gennych am blannu ar dir nad yw'n bosib plannu coed arno. Er enghraifft:

- Efallai na fydd rhai tenantiaid yn cael plannu coed newydd na rheoli'r coetir sydd ganddyn nhw oherwydd y cytundeb tenantiaeth.
- Nid yw'n bosib plannu coed ar nodweddion parhaol fel ffyrdd, iardiau, arwynebau caled, pyllau dŵr.
- Ni fyddai'n briodol plannu coed mewn cynefnedd â blaenoriaeth neu o ansawdd uchel fel mawnogydd.

Felly, ni fyddwn yn ystyried arwynebedd cyfan y fferm wrth gyfri'r gofyn am 10% o orchudd coed. Byddwn ond yn defnyddio'r arwynebedd sy'n weddill ar ôl tynnu'r darnau na ellir plannu arnynt

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cyfeiriad at faterion sensitif eraill a fydd yn cael eu hystyried fesul fferm i benderfynu a yw ardal yn addas ar gyfer plannu. Mae'n ystyried y ffordd orau o ymdrin ag uchelfannau agored neu fannau arfordirol.

Mae NFU Cymru yn parhau i bryderu bod y rheol yn y cynllun ynghylch cael gorchudd coed o 10 y cant yn debygol o fod yn rhwystr i fynediad i lawer o fusnesau.

Yn ei phapur ar y ddeiseb hon, noddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd:

Yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol, bydd coed a choetiroedd yn cael eu cynnwys yn yr arwynebedd tir sy'n cynhyrchu taliadau i ffermwyr, felly rwy'n gobeithio y gall ffermwyr unwaith eto ddysgu i werthfawrogi'r manteision lluosog a ddarperir gan goed.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r gofyniad ynghylch gorchudd coed o 10 y cant wedi cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar sawl achlysur, gyda chwestiynau gan sawl Aelod. Er enghraifft, gallwch ddarllen y trafodaethau ac ymatebion y Gweinidog yn y trawsgrifiad o 11 Gorffennaf 2023.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1388
Ein cyf/Our ref LG/00797/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr, ynghylch deiseb P-06-1388 i ddileu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10% o orchudd coed i gael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cyhoeddais yr ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar 14 Rhagfyr sy'n cynnwys y fersiwn ddiweddaraf o ystod eang o gamau gweithredu arfaethedig, gan gynnwys gofynion gorchudd coed.

Hoffwn egluro rhai pwyntiau ynghylch y gofyniad gorchudd coed arfaethedig o 10%:

Byddai coed a choetir presennol yn cael eu cyfrif tuag at y gofyniad sylfaenol hwn. Nid ydym yn cynnig y byddai angen i bob ffermwr blannu 10% ychwanegol at y coed sydd ganddynt eisoes.

O fewn yr ymgynghoriad hwn rydym wedi cynnig diwygiadau i sut y gellid cyfrifo'r 10%. Er enghraifft, nid yw'n ymarferol i ffermwyr tenant blannu coed os yw eu cytundeb tenantiaeth yn ei wahardd, a byddai'n amhriodol yn ecolegol i blannu ar gynefinoedd â blaenoriaeth. Felly, rydym yn cynnig addasu'r gofyniad fel nad yw'n 10% o'r fferm gyfan bellach, ond 10% o'r arwynebedd sy'n weddill pan fydd yr arwynebeddau nad oes modd eu plannu wedi'u tynnu o'r cyfrifiad.

Yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol, bydd coed a choetiroedd yn cael eu cynnwys yn yr arwynebedd tir sy'n cynhyrchu taliadau i ffermwyr, felly rwy'n gobeithio y gall ffermwyr unwaith eto ddysgu i werthfawrogi'r manteision lluosog a ddarperir gan goed.

Rydym yn parhau i archwilio gyda'r diwydiant ffermio sut y gall coed ychwanegol gael eu hintegreiddio mewn modd y maent yn dod yn ased, megis darparu cysgod a lloches i dda byw rhag tywydd cynyddol ansefydlog, neu fel rhwystrau bioddiogelwch ar ffiniau ffermydd. Yn y modd hwn gall coed gyfrannu at gynhyrchu bwyd a gwydnwch cyffredinol busnes y fferm. Nid oes angen dewis rhwng coed neu gynhyrchu bwyd yn unig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni ddylid ystyried y gofyniad gorchudd coed ar ei ben ei hun. Mae'n un elfen o gynllun sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â'r gwaith parhaus o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Yn y modd hwn gallwn helpu ein ffermwyr i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Nid oedd y ddeiseb hon yn seiliedig ar y cynigion a ddiweddarwyd. Rwy'n annog pob ffermwr i ymateb i'r ymgynghoriad presennol.

Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud o ran dylunio'r cynllun, gan gynnwys ar ofynion gorchudd coed, tan ddiwedd yr ymgynghoriad hwn. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 7 Mawrth.



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

P-06-1388 Remove the requirement for farmers to have at least 10% tree cover to access the new Sustainable Farming Scheme – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 22.01.24

Alex Higgs MA BA Cantab

I farm in the uplands of Mid Wales, with my husband, producing Farm Assured Beef and Lamb for 2 prestigious producer groups. The farm has won environmental awards and been undertaking enhanced biodiversity projects for 35 years.

I also farm in South Wales, with my son, on the coast producing annually 80 to 90 of tonnes of beef for a producer group, and 100s of tonnes of wheat, barley and oats for home use and sale to merchants. On the farm is a Pick your Own enterprise selling tonnes of strawberries and raspberries direct to the public. The farm has a large area of cliff land in an Area of Outstanding Natural Beauty (ANOB) over which thousands of people walk monthly. This is managed for habitat and wildlife.

Both farms employ labour and contractors and put thousands of pounds into the rural economy.

My Reply To Lesley Griffiths' Letter:

Thank you for giving me the opportunity to give my thoughts on the response to my petition from Lesley Griffiths.

It is positive that existing trees and woodland would be counted towards the minimum requirement for farmers to have 10% trees as one of the 17 Universal Actions proposed to be able to access the Sustainable Farming Scheme. I believe that most farmers are aware that this will be the case.

It is also positive that trees and woodland will generate payment within the new scheme after the many years they have not been valued within the subsidy system.

As suggested trees are beneficial as shelter, shade and as biosecurity boundaries and many farms have miles of hedges which have this affect but do not count towards 10% trees in the present SFS consultation.

It is also positive that tenant farmers will have a derogation if their tenancy agreement precludes tree planting and it would be ecologically inappropriate to plant trees on valuable habitat land.

It is still proposed that 10% trees will be required on remaining land, which will be 'productive land'. Lesley Griffiths states 'that the tree cover should not be considered in isolation'. The problem is that a farmer would not be able to access the scheme as described in the present consultation if he/she did not have 10% trees or was intending to plant trees on productive land in the next 6 years.

My reasons for establishing the Petition:

Farmers and land owners have replied to the previous consultations and also stated in numerous co-design meetings that the idea of 10% trees will prohibit a lot of farmers from being able to join the Sustainable Farming Scheme, as Welsh Government continually propose. As you can observe from the number of farmers who signed the petition many of them will find it impossible to achieve 10% trees and therefore will not be able to access the SFS. These tend to be the highly productive farmers who use their land efficiently to produce food. Of course other farmers will have 10% of their land as trees or may be happy to plant trees to attain the level.

Why is Welsh Government not listening to the consultation replies? It appears that Welsh Government is determined to solve a lot of the Carbon balance problems of Wales by making farmers plant their land with trees to capture Carbon.

When the UK was part of the EEC farmers received money from the Common Agricultural Policy (CAP). The CAP was a partnership between society and agriculture that ensured a stable food supply, safeguarded farmers' incomes, protected the environment and kept rural areas vibrant.

It would be hoped that the new Welsh Sustainable Farming Scheme would have the same aims. (Indeed, in the Welsh Government's own words, 'The Welsh Government re-stated its commitment to affect a **Just Transition** away from the fossil-fuelled economy of the past to a new low carbon future. Delivering a just transition will mean, as we move to a cleaner, fairer Wales **we will leave no-one behind**' It should be possible for all farmers to join the scheme, but if thousands of farmers are barred from joining the scheme because of the 10% tree requirement, we in Wales will have failed to design a scheme accessible to all, and it will be in direct conflict with the Welsh Government's commitment to 'leave no-one behind'. It will be very disappointing but also mean that the vision of Welsh farming as 'progressive and environmental' will be very much diluted as these farmers will not engage with the other 16 universal actions, the majority of which will benefit the industry and environment.

Why are some farmers resistant to the requirement for 10% trees as a Universal Action (UA)?

-Planting trees is almost irreversible. It has a risk of unintended long term or irreversible damage to farms, agricultural business and local Welsh economies -i.e. a threat to **Just Transition**. In the early 1960s Beeching's report on the railways of Great Britain on how to stem the large losses of the nationalised railway resulted in the closure of 4500 miles of railway which included 2500 stations with the loss of over 65,000 jobs. By 1968 the railways had not been restored to profitability and miles of railway had sadly been lost for all intents and purposes irreversibly. Wouldn't it have been positive for Climate change if some of these lines were still running now? It is important to be mindful and careful before losing thousands of acres for food production.

-Fixed overheads and Interest on loans. Farming has high general fixed farm costs (insurance, accountancy, paperwork) machinery costs and in many cases labour costs. These costs are divided by the area of production. If a 100-hectare farm is reduced to 80 hectares, 10 hectares to habitat and 10 hectares to trees, the burden of fixed costs per hectare will increase dramatically. I hear Welsh Government saying 'we will encourage farmers to be more efficient and increase productivity'. Many of the farms who are resistant to 10% trees are already the efficient highly productive farms. Planting trees on farm land (change of land use) will immediately reduce the value of the land by thousands of pounds per acre. Many farmers borrow from lenders using land as collateral. Lenders will not be happy if land is planted and devalued and may want more land as collateral. This may restrict the extent of future capital available and hence reduce capacity to invest in these farming businesses and as such in Wales.

Food Production and food security Farmers primarily produce food. The definition of a farmer is a person who works on a farm growing vegetables, grains, fruit and/or raising animals for milk, eggs or meat. Food is a basic requirement and not since the second world war has there been greater threat to national and international food supplies.

-Taking 20% of land out of production (10% habitat plus 10% trees) in Wales will threaten supply. Farmers have contracts to supply product i.e. milk, lamb beef. Losing area to trees will compromise these contracts. A decrease in product will affect processors who will have to buy in stock from England or Scotland to maintain capacity and viability, and might even move out of Wales.

-This decrease in Welsh stock, and hence production, will have an effect on the Welsh balance of payments.

The basic feasibility of growing trees. -Growing trees like growing anything is not easy:

- Weather affects young plantations. A long dry spell in the summer after planting leads to high mortality of saplings.

-Diseases have become more prevalent in the past years e.g. ash die back, acute oak die back, dutch elm disease, eight toothed spruce bark beetle, great spruce bark beetle, oak processionary moth, pine processionary moth, sweet chestnut blight and many more. (see Woodland Trust key tree pests and diseases)

-Conifers are often the easiest and fastest growing species to plant, but do not provide a very diverse habitat and are not reflective of the native habitat in Wales. The pasture land of Wales captures Carbon. It is full of earthworms essential for a healthy soil. Planting trees changes the ph (acidity) of the soil. Conifers particularly acidify the soil which kills earthworms leading to degradation of the soil and loss of Carbon and also leads to increased acidity in the water. Trees also use large volumes of water which affects the water table.

-Rabbits, hares, voles, mice and in some cases deer are prevalent and can destroy young saplings in days. Tree guards are expensive and usually made of single use plastic.

-Fencing is expensive and not long lasting (15-20 years)

-Planting near the coast in the teeth of the wind is nearly impossible. It has been suggested that farmers should plant in sheltered areas of land on these farms. This land is invaluable for shelter for stock and for arable crops. Salt wind can destroy an arable crop, such as barley, after planting in a weekend. Wind close to harvest can cause cereals to lodge, shed grain and be very difficult to harvest leading to significant decrease in yield.

-The payment available at present is realistic for flat easy plantings but the 12-year payment although initially reasonable is not inflation linked. After 12 years there will be no income until the wood is ready to harvest.(this will be a long time for hardwood plantations) The trees will still need managing until mature. At this point there may be a glut of timber if everyone plants in the next 6 years. Will there be enough demand and will there be labour to harvest? Have these key considerations been contemplated?

Positive suggestions:

-Decrease the percentage of trees required as a Universal Action so that most farmers are not restricted from joining the scheme by this action.

- At the same time make the payment for riparian strips around water courses attractive to also protect water courses from soil contamination. In these situations, advise shrubs which enhance the biodiversity as well as trees in these areas.

- Some farmers may be interested in significantly increasing the area of trees, well above 10%, on their land if they are incentivized by significant payments. This could be in the Optional Actions.

- Instead of just thinking the blunt tool of trees is the answer to Carbon capture in Wales farmers should be helped financially to assess the baseline emissions and capture on farms.

-Perhaps Wales should look into the Arc Zero project in Northern Ireland chaired by Prof John Gilliland which has pioneered a more precise Carbon measurement system for farms than just a basic carbon audit. It has looked into Carbon sequestration using new technologies: Aerial LiDAR showing 3D images of the farm from above which can be used to create a carbon asset register for your farm and they have pioneered a machine which can easily measure carbon stocks to 1 meter depth. Farmers could then be encouraged to increase Carbon sequestration in crops such as trees, willow, miscanthus and soil.

As all patients using the NHS are not prescribed the same prescription, possibly the prescription for our unique farming situations: geographies, habitats, livelihoods and the local communities within which they sit, should not be prescribed such a blunt remedy.

Alexandra Higgs MA BA Cantab

Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y gefnffordd trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR20/7752-6

Rhif y ddeiseb: P-06-1389

Teitl y ddeiseb: Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y gefnffordd trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais

Geiriad y ddeiseb: Mae llawer o ardaloedd preswyl yng Nghymru bellach yn elwa ar derfyn cyflymder o 20mya, gyda rhesymeg gref gan Lywodraeth Cymru ar sail tystiolaeth. Nid ydym yn teimlo ei bod yn ddiogel i'n pentrefi - Eglwys-fach a Ffwrnais - barhau i ddioddef terfyn cyflymder o 40mya.

Rydym wedi bod yn ymgyrchu i wneud y pentrefi yn fwy diogel i gerddwyr ers dros 30 o flynyddoedd, gyda dwy farwolaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydym am i Lywodraeth Cymru adolygu'r terfynau cyflymder o 40mya drwy'r pentrefi i alluogi trigolion i gerdded yn ddiogel ac i wella llesiant.

Saif y pentrefi ar yr A487. Nid oes palmant ar hyd y rhan fwyaf o'r ffordd, felly mae'n rhaid i'n trigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n dal bysiau ysgol, trigolion sy'n ymweld â chymdogion neu'n mynd i ddigwyddiadau, a phentrefwyr hŷn sy'n dal y bws, i gyd gerdded ar yr A487 ei hun. Mewn rhai mannau, nid oes digon o le ar y ffordd i ddau gar basio ei gilydd, felly mae'n rhaid i fodurwyr arafu a dod i stop i osgoi'r cerddwyr hyn.

Mae sail resymegol Llywodraeth Cymru ar gyfer y terfyn cyflymder o 20mya drwy ardaloedd preswyl fel a ganlyn: "Mae'r dystiolaeth ledled y byd yn glir iawn - bydd gostwng cyflymder yn arbed gwrthdrawiadau, arbed bywydau a



lleihau anafiadau - gan helpu i wella ansawdd bywyd a gwneud ein strydoedd a'n cymunedau lleol yn fwy diogel i bawb."

O ystyried y dystiolaeth, teimlwn yn gryf iawn y dylai'r terfyn cyflymder trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais gael ei adolygu a'i ostwng o 40mya.

1. Y cefndir

Pentrefi yng Ngheredigion ar yr A487 yw Eglwys Fach a Ffwrnais . Mae'r A487 yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd o lwybrau strategol.

Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer yr A487. Dirprwyir rheolaeth y ffordd o ddydd i ddydd i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Fel mae'r ddeiseb yn ei awgrymu, mae trigolion y pentrefi wedi bod yn galw am welliannau o ran diogelwch y ffordd ers blynnyddoedd. Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd y trigolion orymdaith i alw am gwtogi ar y terfyn cyflymder ac am lunio llwybrau cerdded ar hyd ochr y ffordd. Cynhaliwyd gorymdaith debyg yn 2014 - bryd hynny yn cynnwys trigolion o'r pentref cyfagos, Glandyfi. Yn y cyfamser, mae galwadau am weithredu wedi parhau.

Gwariwyd £10 miliwn ar welliannau i ledu'r A487 yng Nglandyfi, a chwblhawyd y gwaith yn 2013.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at bolisi Llywodraeth Cymru ar leihau'r terfyn cyflymder rhagosodedig ar ffyrdd cyfyngedig sef, y rhai sydd â goleuadau stryd ddim mwy na 200 llath ar wahân o 30mya i 20mya. Nid yw'r rhan o'r A487 yn Eglwys Fach a Ffwrnais yn ffordd gyfyngedig ac felly nid oedd y polisi hwn yn effeithio arni.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer gosod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru (SLSLiW) yn 2009. Mae hyn yn berthnasol i bob ffordd yng Nghymru ac eithrio traffyrdd. Mae'r canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu'r polisi terfyn cyflymder 20mya, ac ymdrinnir â'r broses ar gyfer pennu eithriadau i'r terfyn 20mya ar hyn o bryd drwy ganllawiau a gyhoeddwyd fel atodiad i ddogfen 2009.

Wrth drafod ystyriaethau ar gyfer gosod terfynau cyflymder, dywed SLSLiW, “Dylai astudiaeth o wrthdrawiadau traffig ac anafiadau ar y ffyrdd nodi a yw terfyn cyflymder presennol yn addas ar gyfer y math o ffordd a’r cymysgedd defnydd gan wahanol ddefnyddwyr y ffordd.”

Mae’n nodi hefyd:

Yn y bôn dylid ceisio sicrhau bod gyrwyr yn gyrru ar gyfl ymderau diogel sy’n adlewyrchu swyddogaeth y ffordd a’r effaith ar y gymuned leol. Dylid ystyried anghenion defnyddwyr ffyrdd sy’n agored i niwed a chymunedau yn llawn.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar **strategaeth diogelwch ffyrdd newydd i Gymru**.

Mae’r **llythyr** gan Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn amlygu bod y broses ar gyfer newid y terfyn cyflymder ar y ffordd hon wedi’i nodi yn y canllaw ar osod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru. Dyma a ddywedodd:

Mae cyhoeddi’r canllawiau SLSLiW newydd yn cael ei gydlynw i sicrhau cyd-fynd â’r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd newydd. Efallai y bydd y canllawiau newydd yn gweld newid yn y meini prawf ar gyfer terfynau cyflymder is yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu’r terfynau cyflymder ar draws ei Rhwydwaith Cefnffyrdd yn dilyn cyhoeddi’r canllawiau gan gynnwys y rhan hon o’r A487.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Er bod mater terfynau cyflymder wedi’i drafod yn helaeth, nid yw’n ymddangos bod y terfyn cyflymder yn Eglwys Fach a Ffwrnais ar yr A470 wedi’i godi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarw o reidwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref LW/03246/23

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee

16 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr yn amgáu deiseb P-06-1389 ynghylch cyflwyno terfyn o 30mya ar gefnffordd yr A487 trwy bentrefi Eglwys Fach a Ffwrnais gan Catherine Ruth Stevenson.

Byddwch yn ymwybodol o'r fenter sydd wedi arwain at gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya yng Nghymru. Roedd y broses genedlaethol o gyflwyno 20mya yn gyfyngedig i ffyrdd a arferai fod yn 30mya. Ar gyfer pob ffordd y tu allan i hyn, fel yr A487 yn Eglwys-fach, mae'r broses ar gyfer newid cyflymder yn dibynnu ar ddiweddaru'r [canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru \(SLSLiW\)](#), i adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyno [terfynau](#) cyflymder 20mya yn genedlaethol ac i gyflawni'r uchelgeisiau a amlygwyd yn [Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021](#). Mae cyhoeddi'r canllawiau SLSLiW newydd yn cael ei gydlynu i sicrhau cyd-fynd â'r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd newydd. Efallai y bydd y canllawiau newydd yn gweld newid yn y meini prawf ar gyfer terfynau cyflymder is yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws ei Rhwydwaith Cefnffyrdd yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau gan gynnwys y rhan hon o'r A487.

Efallai y bydd y deisebydd/deisebwyr am wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad ar Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd newydd Llywodraeth Cymru ar-lein yn [strategaeth diogelwch ffyrdd | GOV. CYMRU](#) sydd ar gael tan 31 Ionawr 2024.

Yn gywir,

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dear Petitions Committee

Thank you for email of 16th January regarding our Petition for a 30mph limit through our villages of Eglwys Fach and Ffwrnais. You suggested that we respond on the following issues:

What are your thoughts on the attached document:

The attached letter from Lee Waters suggests that a review of speed limits will be undertaken on the A487 through our villages of Ffwrnais and Eglwys Fach following the publication of the new Setting Local Speed Limits in Wales (SLSLiW) Guidance. As a community who have been fighting to reduce speed limits through these villages for nearly 50 years, we welcome this review. However, having read the SLSLiW currently in place, and a number of other existing Strategies and Policies we consider that the Welsh Government is **NOT** meeting its commitments to its **current** Policies and Strategies, let alone any updated ones. We have explained why below. We are prepared, as a community, to take this to judicial review if the evidence is not used appropriately to make the decision on a speed limit reduction.

Our Community Council and others in the community have responded to the Road Safety Strategy consultation which states that roads should be safe for pedestrians, cyclists, horse riders, wheelchair users as well as car drivers- all of which are *unsafe* currently on the main road through our villages.

Does it adequately address the issues that you raised?

No, we do not think it adequately addresses the issues that we raised, against current or emerging future policy.

Further questions

Please see below our evidence to illustrate that the current situation does not meet Policy requirements. Our questions to Lee Waters are *‘Why can our 30mph speed limit request not be considered under current policy requirements? Why does it have to wait until new guidance is in place? Further, we would ask Lee Waters “Would you consider that the road situation in the villages of Ffwrnais and Eglwys Fach meets current Policy requirements?”*

Evidence

1. Safety

These villages are cut through by the A487. The speed limit is 40mph and 60mph in places, but cars and lorries often go faster than this. There is no pavement through the majority of the village.

We have a number of vulnerable users of the road in the village, including children, the elderly and wheelchair users, though the nature of the road makes all pedestrians and cyclists vulnerable.

There are 3 bus stops in the villages for the school bus. Each of these requires children to walk ON the main road on stretches with no pavement, with traffic travelling at 40mph, and in some places 60mph. They also need to cross the A487 to access the bus stops.

Everyone, including the elderly has to walk ON the main road to get to the community centre (the Iron Room - where a number of events are held each week), bus stops, and church, and to see friends in the village. Many older people choose to drive within the village because walking is not safe. The community centre in particular, is on a blind summit.

There have been 3 fatalities and 1 life changing injury within the village due to fast traffic since 1982: this includes the death of a child, an older resident trying to drive his car out of his drive, and a motorbike rider. A resident in his 30's suffered life changing injuries whilst trying to get to his car on the main road outside his house. He can no longer engage in his work as a builder and joiner.

Over 100 people came out to protest about the road on Saturday 18th November 2023.



The above situation contradicts the following policies: (italics added)

- **SLSLIW** Section 3.5 The following factors should be assessed “The conditions and facilities for *vulnerable road users, the level of public anxiety “the potential collision and casualty savings”*”.
- Section 3.6 “the underlying aim of speed management policies should be to achieve a safe distribution of speeds which reflect the function of the *road and the needs of the local community*”.
- Section 3.7 “the estimated *collision and injury* savings should be an important factor when considering changes to a local speed limit”.

- Section 3.8 “the characteristic of the road, including its geometry ...should be a key factor when setting a speed limit”.
- A number of points of section 3.9 are also contradicted. E.g. the following factors are important: “road users’ composition (including existing and potential levels of pedestrian, cyclist, horse rider,” “road geometry (width, sight lines, bends level of adjacent development”
- 3.10 – the *needs of vulnerable road users* must be fully taken into account in order to further encourage their mobility and improve their safety “

The above situation also conflicts with the ambitions of **the Llwybr Newydd: the Wales Transport Strategy 2021:**

- pg 26 Confidence and safety- “we want everyone to feel *confident safe, secure* and welcome using the sustainable transport mode of their choice”.
- pg 18 “upgrade our existing infrastructure to meet our legal obligations on *accessibility and safety...*”

2. Community Coherence, Wellbeing, Isolation and Anxiety

The A 487 currently cuts through our community, and residents are unable to walk safely to visit friends and neighbours within the villages, attend community events in the community centre or church. This seriously curtails community cohesion and means that there is little interaction. Older community members in particular feel isolated and are unable to walk, even to their relatives’ a few houses up the road. When they are unable to drive, this isolation becomes extreme. Some residents with small children have moved out of the village due to the dangerous road.

This situation contravenes the following policies:

SLSLIW

- 3.5 and 3.9 Important factors include the need to satisfy the following: “the level of community severance by moving traffic”.

The Llwybr Newydd: the Wales Transport Strategy 2021:

- pg 24 “transport services and infrastructure accessible and inclusive by aiming to remove the physical, attitudinal, environmental, systemic, linguistic and economic barriers that prevent people from using sustainable transport.”
- pg 32 Cohesive communities: “ensure that planning and transport solutions are tailored to the needs of different communities and different parts of Wales *including rural communities*”.

3. Healthy living

Residents cannot walk or cycle safely from their houses in their village. As a result, they get in their car if they have one, or if able to drive. There is no safe cycling or walking route to the bus stops or to the local train station (Dovey Junction).

Whilst the Active Travel Fund was utilised recently to provide a safe walking/cycling route from Waun Fawr to Commins Coch (Also on the A487), we feel our community is being left out.

This situation contravenes the following policies:

Llwybr Newydd: the Wales Transport Strategy 2021:

- pg 23 A transport system that contributes to a more equal Wales and to a healthier Wales, that everyone has the confidence to use.
- pg 25 Health: We will contribute to higher activity levels through more people walking and cycling.

4. Sustainability

Residents will get into their cars rather than walk e.g. to the community centre within the village as there is no safe passage. This creates greater CO2 emissions and other pollution.

This situation contravenes the following policies:

Llwybr Newydd: the Wales Transport Strategy 2021:

- pg 28 Greenhouse gas emissions – “we will deliver a significant reduction in greenhouse gas emissions from transport”.
- pg 17 “.....Actively aim to achieve a shift away from private car use to more sustainable transport modesthat enable more people to walk, cycle and use public transport ...”
- pg 19 the sustainable transport hierarchy of a) walking and cycling, public transport, ultra-low emissions vehicles, other private motor vehicles.

The above situation also conflicts with the law enshrined in the **Well Being of Future Generation Wales Act (2015)** particularly around the requirements of decisions that support cohesive communities, a healthier Wales and a Globally Responsible Wales.

We look forward to your response

Yours Faithfully

Dr. Ruth Stevenson (on behalf of the Eglwys Fach and Ffwrnais communities)

P-06-1390: Rhoi diwedd ar bob bwyd â chymhorthdal yn y Senedd ac i staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol

Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR24/7752-7

Rhif y ddeiseb: P-06-1390

Teitl y ddeiseb: Rhoi diwedd ar bob bwyd â chymhorthdal yn y Senedd ac i staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol

Geiriad y ddeiseb:

O ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn ddiweddar ei bod yn ystyried gwaredu rhai eitemau o brydau borgen, mewn ymgais i orfodi'r cyhoedd yng Nghymru o ran beth i'w fwyta, mae'r ddeiseb hon yn galw am i fwyd â chymhorthdal ddod i ben ar gyfer Aelodau o Senedd Cymru a'u staff.

Pam y dylai pobl Cymru orfod dioddef yn ariannol tra bo'r rheini yn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn mwynhau prydau rhad?

Mae pobl yng Nghymru wedi cael llond bol ar y tresmasu cyson ar ein bywydau gan y cyrff busneslyd yn Llywodraeth Cymru sydd am ddweud wrthym beth y dylem ei fwyta neu beidio, tra byddan nhw'n mwynhau bwyd a phrydau â chymhorthdal.

<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/390-fry-up-welsh-politicians-26304030>



1. Y cefndir

Mae gwasanaethau arlwyo ar ystadau Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn cael eu darparu gan contractwyr allanol drwy contractau arlwyo ar wahân.

Mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru fod Contract Arlwyo Cymru Gyfan (AWCC) yn darparu gwasanaethau arlwyo i'w hystâd weinyddol yn unig. Mae'r contract, meddai, yn contract allanol ac nid yw'n cynnwys consesiynau.

Mewn ymateb arall i gais Rhyddid Gwybodaeth ym mis Mehefin 2022, cadarnhaodd Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) nad yw'r gwasanaethau arlwyo penodol "yn seiliedig ar gymorthdaliadau pris ar gyfer eitemau sydd ar werth ond ar sail cyfanswm costau'r contract a'r gyllideb i ddarparu'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen yn y manau arlwyo".

2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Cafwyd ffigurau refeniw a chymhorthdal AWCC ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23 gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

Location	2021-22		2022-23	
	Net Income	Net Subsidy	Net Income	Net Subsidy
Aberystwyth	£19,167	£48,154	£26,885	£49,352
Bedwas	n/a	£379	n/a	n/a
Carmarthen	n/a	£363	n/a	n/a
Cathays Park	£132,325	£198,560	£221,987	£182,832
Llandrindod	n/a	£113	n/a	n/a
Llandudno Junction	£15,652	£63,635	£27,786	£63,995
Merthyr Tydfil	£15,876	£52,112	£25,540	£41,330
Penllergaer	n/a	£136	n/a	n/a
Treforest	n/a	£310	n/a	n/a
Hospitality (Primarily Cathays Park)	£6,769	£35,684	£49,824	£23,761
Central Shared Costs	n/a	£39,635	n/a	£34,929
Total	£189,790	£439,078	£352,022	£396,200

3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Caiff y gost o ddarparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau ar ystâd y Senedd ei chynnwys yn y Gyllideb Flynyddol y bydd y Comisiwn yn ei chyhoeddi. Yn 2023-24, cyfanswm y gyllideb ar gyfer gwasanaethau arlwyyo yw £430,000 ac mae'n cynnwys costau llafur, costau bwyd, costau cyflenwadau, costau cyfarpar a ffi rheoli.

Mae'n caniatáu i'r amrywiaeth o wasanaethau ar ystâd y Senedd gael eu darparu a'u rhedeg, gan gynnwys y caffi cyhoeddus, bwyty'r staff, parlwr te ac ystafell giniawa'r Aelodau yn ogystal â'r holl wasanaethau lletygarwch ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae manylion cyllideb flynyddol y Senedd ar gyfer gwasanaethau arlwyyo wedi'u cynnwys yn nhabl y Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2023-24 isod.

Tabl 5: Dadansoddiad o gostau adeiladau a chyfleusterau

	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
	£000	£000	£000	£000
Rhent ac ardrethi yn cynnwys parcio ceir	£2,007	£1,895	£1,923	£1,951
Cynnal a chadw a gwaith	£1,030	£1,035	£1,035	£1,035
Diogelwch	£773	£773	£773	£773
Cyfleustodau	£582	£1,251	£1,276	£1,301
Glanhau	£533	£560	£572	£584
Arlwyyo	£399	£430	£438	£447
Rhentu llungopiwyd	£105	£65	£65	£65
Dodrefn a gosodiadau	£60	£60	£60	£60
Cyfanswm	£5,489	£6,069	£6,142	£6,216

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Dylid grymuso rhieni i ddewis: Yr hawl i gael eithriad a chyfranogiad cynhwysol yn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2024
Petitions Committee | 29 January 2024

Cyfeirnod: SR24/7752

Rhif y ddeiseb: P-06-1393

Teitl y ddeiseb: Dylid grymuso rhieni i ddewis: Yr hawl i gael eithriad a chyfranogiad cynhwysol yn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Geiriad y ddeiseb: Mae'r ddeiseb hon yn eiriol dros ddewis rhieni a chyfranogiad cynhwysol yn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'n amlygu pwysigrwydd parchu credoau amrywiol, diogelu hawliau rhieni, a galluogi'r dewis i gael eithriad. Nod y ddeiseb yw meithrin dealltwriaeth a pharch, ac atal gwahaniaethu. Diben y ddeiseb hon yw sicrhau dewis i rieni a hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol yn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'n cydnabod y credoau amrywiol sydd gan rieni ac yn pwysleisio pwysigrwydd parchu eu hawliau. At hynny, mae'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch diffyg dewis i gael eithriad, a allai amharu ar ymreolaeth rhieni. Trwy ddewis cael eithriad, gall rhieni alinio addysg eu plentyn â'u hargyhoeddiadau crefyddol neu bersonol. Mae'r dull hwn yn meithrin amgylchedd mwy cynhwysol sy'n parchu gwerthoedd a chredoau'r holl deuluoedd o dan sylw. At hynny, arwyddocâd cynnal deialog agored, cyd-ddealltwriaeth a pharch at safbwyntiau amrywiol o fewn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'n eirioli dros fframwaith addysgol sy'n osgoi gwahaniaethu, yn cynnal hawliau rhieni, ac yn annog cyfranogiad gweithredol rhieni yn addysg eu plentyn. Drwy sicrhau cydbwysedd rhwng cynwysoldeb ac ymreolaeth rhieni, gall y rhaglen Addysg Cydberthynas a



Rhywioldeb ,ddarparu ymagwedd fwy cynhwysfawr a pharchus at addysg cydberthynas a rhywioldeb.

1. Y cefndir

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer dysgwyr 3 i 16, ac fe'i sefydlwyd gan [Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021](#). Cafodd y Cwricwlwm i Gymru ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022, cyn iddo gael ei gyflwyno i Flwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023, a phob grŵp blwyddyn ychwanegol wedi hynny nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Mae ACRh yn disodli addysg rhyw a chydberthynas. Roedd addysg rhyw a chydberthynas yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion uwchradd, ac er bod ysgolion cynradd yn cael ei dysgu, ond nid oedd yn orfodol iddynt. Mae ACRh yn orfodol mewn ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd, gyda Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth honno fod "yn briodol yn ddatblygiadol".

Yn flaenorol, byddai gan rieni yr hawl i dynnu eu plentyn allan o addysg rhyw nad oedd yn rhan o bwnc o dan y cwricwlwm cenedlaethol. O dan y cwricwlwm

newydd, nid yw rhieni'n gallu tynnu eu plant allan o ACRh. Nododd Llywodraeth Cymru ei sail resymegol ar gyfer hyn pan ymgynghorodd ar [Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn](#) (2019). Yn ei dogfen ymgynghori, dywedodd:

Credwn fod achos cryf sy'n seiliedig ar egwyddor dros warantu y gall pob dysgwr ysgol gael Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er mwyn i ddysgwyr allu elwa'n llawn ar gwricwlwm eang a chytbwys, rhaid iddynt allu manteisio ar bob rhan ohono.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Wrth ddarparu ACRh, mae ysgolion yn dilyn cod statudol, sef y [Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#), a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Rhagfyr 2021. Mae cynnwys y Cod yn seiliedig ar linyddau dysgu cysylltiedig bras, sef:

- cydberthnasau a hunaniaeth;
- iechyd a lles rhywiol;
- grymuso, diogelwch a pharch.

Mae [canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ACRh](#) yn dweud:

Dylai ysgolion a lleoliadau feddu ar linellau cyfathrebu clir mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb a dylen nhw ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach, gan roi cyfle iddyn nhw ymgysylltu â'r hyn a ddysgir a'r hyn a addysgir fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr yn barhaus yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol er mwyn ymgysylltu â nhw mewn ffordd bwrpasol ac ystyrlon.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod yn rhaid i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwrialiaethol o ran ei chynnwys a'r dull addysgu. Mae'n dweud:

Wrth ddefnyddio'r term plwraliaethol, rydym yn golygu pan fo cwestiynau o ran gwerthoedd yn codi, rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu ystod o safbwyntiau ar bwnc, a fynegir yn gyffredin mewn cymdeithas. Mae hyn hefyd yn golygu darparu ystod o wybodaeth ffeithiol am faterion sy'n gysylltiedig ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Ym mhob ysgol, pan fo ysgolion yn ystyried credoau neu

safbwyntiau penodol, rhaid cynnwys ystod o safbwyntiau ffydd eraill a safbwyntiau anghrefyddol ar y mater.

Cafodd her gyfreithiol a ddygwyd gan rieni o Public Child Protection (Wales) i atal gwersi ACRh gorfodol ei chlywed yn yr Uchel Lys ym mis Tachwedd 2022.

Dyfarnodd yr Uchel Lys ar 22 Rhagfyr 2022 fod y gwersi yn gyfreithlon. Wrth groesawu'r penderfyniad, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:

Gall rhieni ddisgwyl i ysgolion gyfathrebu â nhw am eu cynlluniau ar gyfer addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a dylai rhieni allu codi unrhyw gwestiynau adeiladol neu bryderon am y cynlluniau.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

3.1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cafodd y ffaith y byddai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol i bob dysgwr o 3 oed ymlaen a'r ffaith na fyddai gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o'r gwersi eu trafod gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth iddo graffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (gweler pennod 6 o'i Adroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil). Barn y Pwyllgor oedd y dylai pob plentyn gael mynediad llawn at ddysgu am gydberthnasau a rhywioldeb. Yn ei farn ef, byddai cynnwys hyd yn oed hawl gyfyngedig i dynnu disgyblion yn ôl o'r ddarpariaeth yn peri risg o danseilio'r dull gweithredu hwn. Roedd cefnogaeth y Pwyllgor yn seiliedig ar y ffaith fod ACRh:

- yn briodol o ran datblygiad;
- yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol;
- yn cael ei chyflwyno yn unol â chanllawiau statudol manwl a chllir, a luniwyd gan arbenigwyr, ymarferwyr a phlant a phobl ifanc eu hunain;
- yn cael ei hategu gan y dysgu proffesiynol, yr adnoddau a'r gefnogaeth arbenigol angenrheidiol.

3.2. Y Pwyllgor Deisebau

Cafodd y ddeiseb P-05-1096 Dileu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o'r elfen orfodol o Fil Cwricwlwm 2020 ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau yn 2021. Yn sgil y gwaith craffu ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan y Pwyllgor Plant, Pobl

Ifanc ac Addysg ac yn y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn – yn ogystal â'r cyfleoedd a fyddai ar gael i'r Aelodau ddiwygio'r Bil – cytunodd y Pwyllgor i gadw golwg ar y ddeiseb. Caeodd y Pwyllgor y ddeiseb yn ei gyfarfod olaf o'r Bumed Senedd fel rhan o'i adolygiad o'r holl ddeisebau yr oedd yn eu hystyried, yng ngoleuni'r ffaith bod etholiad yn yr arfaeth a'r ystyriaeth o'r mater hwn a gafwyd hyd hynny.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1393
Ein cyf/Our ref JMEWL/02094/23

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Rhagfyr, yn fy hysbysu am *Ddeiseb P-06-1393 - Dylid grymuso rhieni i ddewis: Yr hawl i gael eithriad a chyfranogiad cynhwysol yn y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb*, sydd ar hyn o bryd yn casglu llofnodion.

Mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl ifanc, drwy addysg gyhoeddus, yn cael cyfle i ddeall a thrafod eu hawliau nhw eu hunain a hawliau pobl eraill. Rydym eisiau gweld addysg yn helpu ein plant i ddatblygu yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod ar gyfer pennod nesaf eu bywyd ar ôl gadael yr ysgol.

Pam mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn orfodol?

Mae ACRh yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru oherwydd ei bod yn ganolog i gadw dysgwyr yn ddiogel ac yn iach. Dylai fod gan bobl ifanc yr hawl i gael gwybodaeth sy'n eu hamddiffyn ac yn eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys dysgu am nodweddion perthynas iach; cadw'n ddiogel ar-lein ac all-lein; bwlio; trais yn erbyn menywod; a bod yn hyderus i godi materion gydag oedolion cyfrifol. Mae hyn yn hollbwysig i greu cymdeithas sy'n trin eraill â dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag eu hethnigrwydd, eu crefydd, eu cefndir economaidd-gymdeithasol, eu hanabledd, eu rhyw, eu rhywedd, neu eu rhywioldeb.

Mae gan rieni rôl ganolog i'w chwarae wrth gefnogi eu plant. Mae rôl hanfodol i ysgolion hefyd: mewn byd lle mae cymaint o wybodaeth anghywir a chamarweiniol, a deunydd niweidiol yn cylchredeg ar-lein, mae ysgolion yn addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd meithrin cydberthynasau iach a hunan-barch; annog dysgwyr i roi gwerth arnyn nhw eu hunain; cydnabod a chyfleu eu teimladau; a chreu cyfeillgarwch ag eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 78
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r canllawiau statudol yn glir iawn ein bod yn disgwyl i ysgolion weithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn deall yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu. Maent yn nodi y dylai ysgolion a lleoliadau sefydlu sianeli cyfathrebu clir mewn perthynas ag ACRh, ac y dylent ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach er mwyn iddynt fod yn rhan o'r broses o ddysgu ac addysgu am ACRh. Dylid sicrhau bod yr holl adnoddau sydd i'w defnyddio mewn ysgolion a lleoliadau yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn ddatblygiadol, yn gynhwysol ac yn sensitif i anghenion dysgwyr, a gellir rhannu'r deunyddiau â rhieni ymlaen llaw.

Parchu credoau amrywiol

Mae hefyd yn ofynnol yn gyfreithiol i'r broses ddysgu fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, fel y nodir yn y Canllawiau Statudol:

'Wrth ddefnyddio'r term plwraliaethol, rydym yn golygu pan fo cwestiynau o ran gwerthoedd yn codi, rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu ystod o safbwyntiau ar bwnc, a fynegir yn gyffredin mewn cymdeithas. Mae hyn hefyd yn golygu darparu ystod o wybodaeth ffeithiol am faterion sy'n gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Ym mhob ysgol, pan fo ysgolion yn ystyried credoau neu safbwyntiau penodol, rhaid cynnwys ystod o safbwyntiau ffydd eraill a safbwyntiau anghrefyddol ar y mater.

Er enghraifft, gallai ysgolion ddysgu am densiynau, anghytundeb neu ddadleuon presennol mewn cymdeithas, neu gallant edrych ar safbwyntiau gwahanol o fewn credoau ar faterion. Mae datblygu'r blwraliaeth hon yn bwysig er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus sy'n ymwybodol o ystod o safbwyntiau, gwerthoedd a chredoau gwahanol ac yn sensitif iddynt. Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu â thensiynau posibl ac ymdrin â nhw.

Mae dealltwriaeth dda o safbwyntiau, gwerthoedd datblygol a chefnidiroedd dysgwyr yn ganolog i ddatblygu'r blwraliaeth hon. Gall cydberthnasau cadarnhaol â chymunedau ehangach helpu i greu cyd-destun adeiladol ar gyfer ystyried agweddau a thensiynau mewn ffordd sensitif.'

Mae cynwysoldeb hefyd yn egwyddor allweddol sy'n sail i'n gweledigaeth o fewn y cwricwlwm newydd. Dylai'r broses ddysgu gael ei hategu gan arferion cynhwysol ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gweld eu hunain a'i gilydd yn yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r canllawiau ACRh, y mae'n rhaid i bob ysgol eu hystyried, yn tynnu sylw yn benodol at bwysigrwydd hawl plant i ddilyn eu crefydd.

Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a'r hawl i dynnu'n ôl

Rydym yn disgwyl i ysgolion sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ddysgu a pham, a bod cyfleoedd ar gael i holi cwestiynau ac egluro. Mae'r Cod ACRh wedi cael ei gyhoeddi i roi eglurder a thryloywder i rieni a gofalwyr ynglŷn â'r hyn y bydd eu plant yn ei ddysgu a phryd. Dylai dull rhagweithiol ar ran ysgolion, a chefnogaeth ddigonol, helpu i dawelu unrhyw bryderon cyfreithlon sydd gan rieni a gofalwyr mewn perthynas ag ACRh. Bydd hyn hefyd yn helpu i roi sicrwydd iddynt ynghylch natur gadarnhaol ACRh drwy nodi'r hyn y bwriedir ei ddysgu a'r adnoddau a ddefnyddir yn ystod y cyfnodau datblygu gwahanol.

Mae'r Cod ACRh hefyd yn glir bod yn rhaid i ddysgu fod yn briodol yn ddatblygiadol i bob plentyn; sy'n golygu na ddylai dysgwyr ddysgu am bynciau nad ydynt yn barod amdanynt. Dylai ysgolion gyflwyno dysgu dim ond pan fyddant yn hyderus ei fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr.

Ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch gofynion y Cwricwlwm i Gymru a'r penderfyniad i ddileu'r hawl i dynnu dysgwr o'r gwersi. Ers 2018, mae ACRh wedi bod drwy ymgynghoriad llawn ac eang yn ogystal â phroses graffu'r Senedd.


Yn ystod yr adolygiad barnwrol o ACRh yn 2022, gwrthododd yr Uchel Lys bortread y sawl a oedd yn herio'r cwricwlwm ACRh o'r cwricwlwm hwnnw, a barnwyd o blaid Llywodraeth Cymru ar bob sail. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi hwn, rydym wedi'i gwneud yn glir mai bwriad ACRh yw cadw plant yn ddiogel a hyrwyddo parch a chydberthnasau iach, a chadarnhawyd hyn gan y llys. Yn benodol, dywedodd y barnwr:

- *“...In my judgment, both the Code and the Guidance reflect the general spirit of the (European Convention of Human Rights) as an instrument designed to maintain and promote the ideals and values of a modern liberal democracy, including the values of tolerance, respect and equality.”*

Rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion, ac ysgolion eu hunain i'w cefnogi i gyflwyno'r elfen hon o'r cwricwlwm newydd, a'u helpu i ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a chymunedau, gan gynnwys drwy adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys [pecyn cymorth ACRh](#) ar Hwb sydd â gwybodaeth mewn deuddeg iaith.

I grynhoi, rydym yn glir bod ACRh gorfodol yn ymwneud â chadw plant yn ddiogel rhag niwed a diogelu eu lles meddyliol ac emosiynol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ACRh fod yn blwraliaethol, sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion ddarparu ystod o wybodaeth sy'n ffeithiol ac sy'n adlewyrchu'r ystod o safbwyntiau a goleddir yn gyffredin mewn cymdeithas. Dyfarnodd yr Uchel Lys fod y Cod ACRh yn gyson â hyn. Yn olaf, disgwylir i ysgolion weithio'n agos gyda rhieni wrth iddynt ddatblygu a darparu ACRh, a dylai rhieni allu gweld y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio. Os oes ganddynt unrhyw bryderon, dylai fod gan ysgolion brosesau clir i fynd i'r afael â'r materion hyn ac ymateb iddynt.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

P-06-1393 Empowering Parental Choice: Opt-Out Rights and Inclusive Involvement in the RSE Program - Correspondence from the Petitioner to the Committee

January 17, 2024

Petitions Committee, Welsh Parliament
Senedd, Pierhead St, Cardiff CF99 1SN

Dear Petitions Committee,

Thank you for the opportunity to provide further comments on Petition P-06-1393 in the context of the document provided by the Welsh Government.

Our primary concern remains the alignment of the Relationship and Sex Education (RSE) curriculum with the principles of modesty in various religious and cultural contexts, including Islam, Judaism, Christianity, and other ethical frameworks. Modesty, or Haya, in an article published on the "SalamIslam" website in Islam, is a comprehensive virtue encompassing behavior, speech, and interactions, particularly relevant in the context of sexual education. It is a principle that emphasizes dignity, respect, and self-restraint, transcending mere dress and appearance to include conduct before God, in society, and even in private. It highlights the importance of modesty as a pivotal ethical principle in Islam, emphasizing dignity, respect, and self-restraint, which is crucial in the context of sexual education (1). Modesty also holds significance in Judaism (2) and Christianity (3), as well as in various cultural and ethical frameworks.

The current RSE curriculum, as implemented, does not seem to sufficiently respect these principles and the diverse perspectives on modesty, culture, and ethical frameworks. There is a significant discrepancy between the Welsh Government's policy of working collaboratively with parents and its actual implementation. Many parents from various communities have reported that the schools are enforcing materials that conflict with their religious beliefs regarding modesty and cultural values. This enforcement not only disregards the cultural and religious sensitivities of students but also potentially exposes children to content for which they are not developmentally ready.

Research underscores the risks of exposing children to sexual content prematurely. A systematic review and meta-analysis involving 16,200 participants indicated a strong association between exposure to sexual content and the likelihood of engaging in problematic sexual behaviors in children and adolescents (4). Early exposure to sexual content can lead to early sexualization, high-risk sexual behaviors, and even the development of sex, love, and relationship addictions, as discussed by Psychology Today (5). The National Sexual Violence Resource Center also highlights the impact of exposure to sexually explicit and exploitative materials on children, emphasizing the need for preventative measures (6).

To address these concerns, we respectfully suggest the following steps:

- Formation of school-based voluntary committees upon the request of parents, with diverse membership representing the community.
- These committees would "supervise" the implementation process and ensure that it aligns with the values and beliefs of our community.
- Committees would actively engage with the school board to collaboratively build the RSE curriculum.
- Prior to any release of these materials to the pupils, we suggest that the unanimous agreement of this committee should be considered essential, as it would reflect the collective wisdom of the community.
- These committees would not only oversee the content but also guide the delivery process to ensure transparency and inclusivity.
- We are also open to the possibility of an in-person meeting to further share our point of view and discuss how we can work together for the benefit of our children.

We strongly emphasize the need to respect children's religion, culture, age, and readiness when delivering RSE content. Parents should have the opportunity to preview materials to ensure they align with their values and beliefs. Many parents have reported that they only see a title before the content is delivered, and

in some cases, the content has been very explicit.

We urge the Committee to consider these aspects in revising the RSE curriculum to ensure it is effective, respectful, and inclusive of all students' cultural and religious backgrounds, with particular attention to the principles of modesty in various religious and cultural contexts.

On behalf of more than 100 concerned families, we request your attention to these important matters.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "M. Mostafa". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Dr Mohamed Mostafa
Mohamed Mostafa BSc(Hons) PhD MBCS
Data Scientist and AI Engineer
Former Senior Lecturer in Data Science and Program Director

*References

- [1] Salamislam. (n.d.). Modesty in Islam. Retrieved from <https://salamislam.com/articles/lifestyle/modesty-islam>
- [2] Wikipedia. (n.d.). Tzniut. Retrieved from <https://en.wikipedia.org/wiki/Tzniut>
- [3] ResearchGate. (n.d.). The Conceptions of Modesty and Modest Dress in the Scriptures of Abrahamic Religions. Retrieved from <https://www.researchgate.net/publication/343554835> *The Conceptions of Modesty and Modest Dress in the Scriptures of Abrahamic Religions*
- [4] [PubMed]. (n.d.). Effects of Exposure to Sexual Content. Retrieved from <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/37343427/>
- [5] Psychology Today. (n.d.). Overexposed and Under Prepared: The Effects of Early Exposure to Sexual Content. Retrieved from <https://www.psychologytoday.com/us/blog/real-healing/201208/overexposed-and-under-prepared-the-effects-early-exposure-sexual-content>
- [6] National Sexual Violence Resource Center. (n.d.). Retrieved from <https://www.nsvrc.org>

Eitem 3.1

P-06-1353 Datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer cefnffyrdd yng ngogledd Cymru i ogledd Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Askar Sheibani, ar ôl casglu 330 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Ar hyn o bryd mae'r holl ffyrdd, ac eithrio cefnffyrdd mawr, yn dod o dan gyfrifoldeb y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Bydd cynnwys y rhwydweithiau cefnffyrdd o fewn cyfrifoldeb y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn arwain at benderfyniadau llawer mwy perthnasol a phragmatig, gan fod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth lawer gwell o anghenion busnesau, cymunedau, a'r economi leol.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gan ogledd Cymru rai o'r parciau diwydiannol mwyaf (fel Wrecsam a Glannau Dyfrdwy) yn y DU. Mae llawer o gwmnïau rhyngwladol adnabyddus wedi ymgartrefu yng ngogledd Cymru. Mae nifer y swyddi gweithgynhyrchu yn yr ardal ymhlith y mwyaf yn y DU. Mae Caergybi, dau faes awyr rhyngwladol (Lerpwl a Manceinion) yn ei gwneud yn hawdd hyrwyddo gogledd Cymru fel lle gwych ar gyfer buddsoddi. Yn anffodus, mae ei rwydwaith ffyrdd yn hen ac felly yn atal y rhanbarth rhag cyflawni ei botensial ar gyfer twf economaidd. Mae'n rhaid i'r ffyrdd hyn, gan gynnwys y cefnffyrdd, gael eu cynllunio a'u dylunio ar y cyd â'r cymunedau a busnesau lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad yn dwyn y buddion economaidd gorau posibl. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag anghenion lleol megis mynediad hawdd at gyflogaeth. Dim ond penderfyniad lleol fydd yn mynd i'r afael ag anghenion trafndiaeth ffyrdd gogledd Cymru. Mae angen gwrandao ar lais busnesau a chymunedau lleol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1353
Ein cyf/Our ref MA/LW/02550/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref ynghylch deiseb P-06-1353 Datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer cefnffyrdd yng Ngogledd Cymru i Ogledd Cymru.

Gweler yr atebion isod i gwestiynau'r deisebydd.

1. A yw'r Dirprwy Weinidog wedi trafod datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer Cefnffyrdd Gogledd Cymru gydag arweinwyr rhanbarthol?

Naddo. Nid yw arweinwyr rhanbarthol wedi codi hyn gyda mi ac nid wyf wedi ei godi gyda hwy, oherwydd nid yw yn bolisi Llywodraeth Cymru am y rhesymau a amlinellwyd yn fy llythyr blaenorol.

2. A yw'r Dirprwy Weinidog wedi dweud wrth Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru y bydd yn gwrthod argymhelliad o'r fath, petai'r Comisiwn yn ei wneud?

Naddo. Nid wyf wedi rhoi unrhyw arweiniad i'r Comisiwn y tu hwnt i'r cylch gorchwyl.

3. A yw gwariant ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar gael yn ôl rhanbarth, er tryloywder?

Gweler isod dabl ar gyfer y gwariant (cyfalaf a refeniw) ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar gyfer tymor y Senedd hon.

	Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	De Cymru
2020/21	£115m	£40m	£134m
2021/22	£98m	£45m	£136m
2022/23	£46m	£36m	£102m

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

4. Mewn egwyddor, a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad y dylai pobl yng Ngogledd Cymru benderfynu ar fuddsoddiadau ar bob ffordd yng Ngogledd Cymru?

Ydy, ac mae pobl yng Ngogledd Cymru yn penderfynu ar y buddsoddi ar bob ffordd yng Ngogledd Cymru drwy ethol cynrychiolwyr i awdurdodau lleol a'r Senedd.

5. A yw Llywodraeth Cymru wedi diystyru datganoli cyfrifoldebau dros fuddsoddi cefnffyrdd i'r Cydbwyllgor Corfforaethol?

Do, am y rhesymau a nodwyd yn fy llythyr blaenorol.

6. A fyddai Llywodraeth Cymru yn cytuno i o leiaf ymgynghori â phobl Gogledd Cymru ynghylch datganoli cyfrifoldebau ar gyfer cefnffyrdd?

Nid ar hyn o bryd, oherwydd nid polisi Llywodraeth Cymru yw tynnu statws cefnffyrdd yng Ngogledd Cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', is centered on a light gray grid background.

Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

P-06-1345 Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ruperra Castle Preservation Trust, ar ôl casglu 7,469 lofnodion ar lein a 3,086 lofnodion ar bapur, sydd yn wneud cyfanswm o 10,555 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Wedi'i adeiladu yng Nghaerffili, 1626, mae Castell Rhiw'r Perrai yn arwyddocaol yn hanes Cymru, un o lond llaw o Gestyll Pasiant sy'n weddill yn y DU. Roedd yn gartref i'r teulu Morgan a Charles I, a'r fyddin yn yr Ail Ryfel Byd. Ym 1941, llosgwyd y tu mewn yn ulw ac mae'n dal i fod yn adfail mewn perygl. Mae'n heneb gofrestrdig ac adeilad rhestredig Gradd II*, ond mae wedi dirywio drwy berchnogaeth breifat. Mae un o'r tyrau wedi syrthio a, heb ymyriad bwriadol, bydd yn dirywio ymhellach ac yn cael ei golli'n fuan...

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae henebion cofrestredig wedi'u gwarchod er mwyn cadw archaeoleg ac adeiladau fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ddysgu o'n gorffennol. Mae llawer o henebion yn sefydlog, ond mae angen rheoli eraill er mwyn arafu neu osgoi effeithiau dirywiad naturiol. Mae gwefan Cadw yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol i'r perchnogion lunio Cynllun Rheoli Cadwraeth i lywio eu penderfyniadau, ond nid yw'n ofyniad. Dylai Llywodraeth Cymru wneud Cynlluniau Rheoli Cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl, er mwyn osgoi esgeulustod a'u colli wedyn. Mae hyn yn cynnwys nodi arwyddocâd, risgiau, a chyfleoedd i warchod a gwella'r heneb, er mwyn peidio â niweidio'r hyn sy'n arbennig a sicrhau ein bod yn trosglwyddo'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi i genedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau na chaiff henebion sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai eu hesgeuluso am 80 mlynedd arall. Bydd hefyd yn helpu i leddfu pryder am golli rhannau arwyddocaol o'n treftadaeth werthfawr ac yn cynorthwyo ein llesiant. Mae'r gymuned wedi bod yn ceisio ei achub ers 25 mlynedd <https://www.ruperracastle.wales/about-us-283027.html>.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Caerffili
- Dwyrain De Cymru

Dear Petitions Committee

Following on from the Senedd debate on 18 October 2023 asking for conservation management plans to be made compulsory for scheduled monuments at risk like Ruperra Castle, we met with Deputy Minister Dawn Bowden in November to discuss Ruperra Castle and the petition.

You will probably all be aware of the very good news that Cadw is part funding a structural survey and level 4 historic building record for Ruperra Castle to take place before March 2024. We are delighted and wanted to thank Dawn Bowden and Cadw, plus all the members of the petitions committee for their support by recommending a plenary debate and raising awareness of the situation at Ruperra Castle, and other nationally important scheduled monuments at risk in Wales.

We were also pleased to hear that Cadw will ensure appropriate conservation management plans are submitted in support of any future applications for Cadw grant support for Ruperra Castle. This shows the importance that Cadw places on conservation management plans and we hope that the owner will be encouraged to put a future plan in place.

Whilst assessing the current state of the monument it is a positive first step for Ruperra Castle, the castle will still be at a high risk of being lost. Since the plenary debate, in November 2023 Caerphilly County Borough Council published a Buildings at risk register and strategy, which places Ruperra Castle as the highest priority for action. Ruperra Castle was described by Cadw inspectors as "structurally unsound with multiple failures - loss may follow in short term".

<https://democracy.caerphilly.gov.uk/documents/s46909/Appendix%201.pdf>

There are still 14% of nationally important scheduled monuments in Wales that we are at risk of losing which was the focus of the petition.

The letter from the Deputy Minister said: whilst their use is justified in some cases, for example for larger, more complex and sensitive proposals, "it would not be appropriate to apply this methodology wholesale to many smaller and simpler scheduled monuments at risk in Wales. Making such plans compulsory would also require new legislation." However, there were several suggestions we sent in August 2023 in response to the Deputy Ministers letter which could provide opportunities to look at complex sites at risk:

1. Formal review of the Historic Environment Bill

In 2017 the Culture, Welsh Language and Communications Committee held an inquiry into Wales's historic environment. This inquiry followed on from the Committee's summer consultation in 2016 during which the public highlighted 'preserving local cultural heritage' as one of the key areas which the Committee should prioritise.

<https://business.senedd.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=19747&Opt=0>

This resulted in a report - Past and Present – Report of an Inquiry into the Historic Environment that recommended that the Historic Environment Bill should be kept under review. "Recommendation 5: The Government should keep the Act under review and formally review its impact after it has been in operation for five years."

The last update we can find on progress is from January 2021 where it says that: "Formal review will be undertaken when the significant provisions of the Act relating to heritage partnership agreements and the register of historic parks and gardens have been in operation for sufficient time to measure their effectiveness." If our suggestion can't be achieved as a one-off amendment to the Act we suggest that our

request is considered as part of this upcoming review. It would be helpful to know when this formal review will take place?

<https://business.senedd.wales/documents/s115586/Welsh%20Government%20update%20on%20progress%20against%20recommendations%202021.pdf>

2. Alternative ideas to legislative changes

Given that conservation management plans are advised by Cadw we suggest that - as an alternative to legislative change - the Deputy Minister could consider the option of issuing a policy statement to strengthen that policy for all scheduled monuments at risk on large, complex and sensitive sites, including Ruperra Castle. We are confident that Cadw could produce a list of such sites reasonably quickly and could fully justify the need for strengthened advice for such monuments in the light of recent statistics on increasing risk levels. Selecting these important complex sites would not lead to disproportionate scale and costs. We therefore request this is considered as an option which could lead to an improving situation for our significant heritage assets in Wales for the benefit of our sustainable tourism industry.

Alternatively, the policy statement could require a conservation management plan to be produced if any large, complex or sensitive scheduled monument - or its setting - is at risk of being affected by a planning or listed building application on an adjacent site.

Kind regards

Ruperra Castle Preservation Trust

P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Natasha Evans-Jones, ar ôl casglu 1,125 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Yn hanesyddol mae'r rhai sy'n dangos arwyddion o syndrom Ehlers-Danlos (EDS) neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd wedi cael eu cyfeirio at adrannau rheumatoleg. Yn 2021, fe'u cyfarwyddwyd i roi'r gorau i weld y cleifion hyn er mwyn iddynt gael diagnosis a rheolaeth mewn gofal sylfaenol, ond nid yw'r adnoddau ar gyfer y rôl hon mewn gofal sylfaenol ar hyn o bryd. Mae gwasanaeth trydyddol unigryw yn Lloegr hefyd wedi cau i gleifion o'r tu allan i'r ardal. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at anghydraddoldebau o ran cael gafael ar ofal iechyd i'r rhai sydd ag EDS ac anhwylderau sbectrwm hypersymudedd yng Nghymru gan arwain at ddiodefaint annerbyniol.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae syndromau Ehlers-Danlos yn anhwylderau genetig ar y meinwe cysylltiol gyda symptomau ledled y corff a all achosi anabled, gan effeithio ar bob agwedd ar fywyd. Mae un math sy'n peryglu bywyd. Mae symptomau'r rhan fwyaf o fathau'n cynnwys problemau cyhyrysgerbydol, poen cronig a blinder, aflonyddwch gastroberfeddol, croen bregus, problemau gyda'r pelfis a'r bledren, camweithrediad awtonomig a gorbryder. Gellir cael diagnosis o ran deuddeg o'r 13 math drwy brofion genetig. Nid oes un prawf ar gyfer y math mwyaf cyffredin (hEDS) nac ar gyfer yr anhwylderau sbectrwm hypersymudedd cysylltiedig, sy'n gwneud diagnosis yn heriol. Gyda'i gilydd, mae hEDS a HSD yn weddol gyffredin. Mewn astudiaeth yn 2019, a oedd yn defnyddio data o ysbytai Cymru a chofnodion meddygon teulu, canfu bod 1 o bob 500 o bobl yn cael eu heffeithio (Demmler et al, <https://bmjopen.bmj.com/content/9/11/e031365>).

Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn achosi diodefaint i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis, y rhai sydd ar lwybrau triniaeth amhriodol, a'u teuluoedd.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dyffryn Clwyd
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1348

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Jack,

Ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau ym mis Hydref ynghylch gofal iechyd i bobl sy'n byw gyda syndromau Ehlers-Danlos (EDS) ac anhwylderau ar y sbectrwm hypersymudedd (HSD) yng Nghymru. Dywedais y byddwn yn gofyn i'm swyddogion adolygu'r ymholiadau ychwanegol a gafwyd gan Gymorth Ehlers Danlos y DU (EDSUK) o ran mynediad at ofal iechyd ar gyfer cleifion EDS a HSD.

Heriodd Cymorth Ehlers Danlos y DU drwy ofyn a oedd atgyfeiriadau priodol i riwmatoleg yn cael eu gwneud, a hefyd am statws EDS a HSD fel clefydau prin. Rwyf wedi ceisio barn bellach oddi wrth arweinwyr clinigol cenedlaethol ym maes clefydau prin a chyflyrau cyhyrsgerberbydol.

Gan nad oes canllawiau NICE na BSR yn y maes hwn, mae'r adnodd EDS a ddarparwyd gan Gymorth Ehlers-Danlos y DU yn dweud: "*the key role of the GP at this moment in time is in diagnosing hEDS/HSD, validating the patient's symptoms and co-ordinating care*". Mae hyn yn cael ei gwblhau drwy asesiad trylwyr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nad oes unrhyw brofion meddygol penodol neu arbenigol ar gyfer EDS na HSD ar hyn o bryd. Mae'n disgrifio amrywiaeth o ymyriadau a ddylai fod ar gael o fewn y tîm gofal sylfaenol, megis ffarmacoleg a therapiau.

O ran atgyfeiriadau i ofal eilaidd, mae'r adnodd yn disgrifio meini prawf ar gyfer uwchraddio i wasanaethau genetig neu riwmatoleg mewn gofal eilaidd os bydd y diagnosis yn llai clir neu ar gyfer ystyried mathau eraill prin o EDS. Mae'r meini prawf uwchraddio hyn yn gydnaws â'r trothwyon atgyfeirio y cytunwyd arnynt gan wasanaeth genetig meddygol Cymru gyfan. Rydym yn disgwyl i'r meini prawf atgyfeirio hyn gael eu hystyried.

Maes o law, bydd Gweithrediaeth y GIG yng Nghymru yn cynnwys Rhwydwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer cyflyrau cyhyrsgerberbydol a rhwydwaith gweithredu ar gyfer clefydau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

prin. Bydd y rhwydweithiau hyn yn gweithio ar y cyd i weld sut y gellid gwella llwybrau gofal. Mae'r arweinwyr clinigol wedi dweud y byddent yn awyddus i weithio gyda Chymdeithas Rheumatolegwyr Prydain, Cymorth Ehlers Danlos y DU, a thimau llwybrau cymunedol i ymchwilio i'r materion hyn mewn modd adeiladol.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Eich cyf/Your ref P-06-1348
Ein cyf/Our ref EM/01941/23

22 January 2024

Dear Eluned,

Thank you for your letter of the 20 December 2023 with your carefully considered response concerning our petition for better care for those with Ehlers-Danlos syndrome/hypermobility spectrum disorder (EDS/ HSD) in Wales. Thank you also for the opportunity to put comments through the petitions committee, both of which we warmly appreciate.

We welcome the reference to our GP toolkit hosted until recently by the RCGP, which we know has helped GPs using it. The toolkit is now available on our website <https://gptoolkit.ehlers-danlos.org/> We also welcome the opportunity to work with National Strategic Network for musculoskeletal conditions and the rare disease implementation network collectively, to explore how care pathways can be improved. We are delighted that the clinical leadership will work with ourselves, the British Society of Rheumatologists and community pathways teams to productively consider these issues. This is great news.

We have the following questions in response to your letter.

1. How will we move this important discussion forwards? How can we engage with the other specialists within the multidisciplinary team across primary and secondary care that are involved in managing EDS/HSD? It is critical that the people involved in this pivotal discussion fully represent the complexity and multisystemic nature of the condition. We need to have representation from other specialists including physiotherapists, gastroenterologists, neurologists, gynaecologists etc. Will the clinical leadership you have sought further determination from, set a date for us to meet? What is the timeline for the change to a National Strategic Network?
2. Whilst we wait for this important discussion, our GP toolkit, in the absence of NICE or BSR guidance in this area, is the only tool available and therefore the only way of aiding accurate and timely diagnoses and effective treatment plans. Will there be opportunities to formalise links to it to ensure that all healthcare professionals and not only GPs are aware of the toolkit? Is there funding available to help promote it and host it on relevant Continuing Medical Education platforms?

Thank you again for your looking into this issue and for the committee's ongoing support. We look forward to your response.

Yours sincerely,

Natasha Evans-Jones (She/her)
Lead engagement and community volunteer for Wales
Area coordinator for North Wales

The Ehlers-Danlos Support UK is a Charity registered in England and Wales (No. 1157027) and Scotland (SCO46712). Registered Company No. 8924646. Registered Address: Devonshire House, Manor Way, Borehamwood, Hertfordshire WD6 1QQ
Tudalen y pecyn 95

Eitem 3.4

P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu trydedd bont dros y Fenai

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emyr Owen, ar ôl casglu 362 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad o'r diwedd na ddylai trydedd bont dros y Fenai gael ei hadeiladu oherwydd pryderon ynghylch newid hinsawdd. Er ein bod i gyd yn deall ac yn gwerthfawrogi'r materion ynghylch yr hinsawdd, mae'r penderfyniad hwn yn ergyd drom i drigolion Ynys Môn ac i unrhyw un sy'n cymudo'n rheolaidd dros y Fenai.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae trydedd groesfan dros y Fenai wedi bod yn gynnig prosiect ers blynyddoedd lawer yn y gobaith y byddai'n cael ei hadeiladu o'r diwedd ar ôl i ganlyniad ymgynghoriad ar y cynlluniau gael ei gyhoeddi yn 2018. Fodd bynnag, yn 2021, cafodd y prosiect hwn (fel prosiectau ffyrdd eraill yng Nghymru) ei rewi er mwyn i'r Panel Adolygu Ffyrdd graffu arno.

Cafwyd llawer o ddadleuon ynghylch gwydnwch, yn fwyaf diweddar pan gafodd Pont y Borth ei chau am dri mis. Dangosodd hynny faint o hunllef yw croesi Pont Britannia oherwydd y cynnydd yn y traffig, a phe bai'n rhaid i'r bont honno gau am gyfnod, byddai Pont y Borth yn sicr yn methu â delio â'r cynnydd mewn traffig.

Gwnaeth yr adolygiad hyd yn oed ddweud y byddai cefnogi'r drydedd groesfan yn gwella diogelwch, gwydnwch a theithio llesol, ond serch hynny daeth i'r casgliad na ddylai'r prosiect fynd yn ei flaen, sy'n gwneud y penderfyniad yn fwy dryslyd fyth.

Dylid cymeradwyo adeiladu trydedd groesfan dros y Fenai, gan y gall gwneud hynny fod yn gatalydd gwyd i brosiectau sy'n llesol i'r hinsawdd yn y dyfodol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Wreccsam

- Gogledd Cymru

Annwyl Glerc,

Diolch i chi am yr hysbysiad blaengar eich bod yn cysidro fy neiseb eto yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Deisebau.

Hoffwn ddechrau drwy groesawu'r adroddiad hir-ddisgwyliedig ar gysylltiadau trafndiaeth Afon Menai gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, ac mae'r argymhellion yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau cyfredol gyda chroesi'r Afon Menai.

Hoffwn wneud sylwadau penodol ar Argymhellion 3-5 ar astudio ac efallai ail-ddylunio'r cyffyrdd cyn ac ar ôl Pont Britannia - o brofiad personol, y cyffyrdd yma sydd yn aml wedi creu problemau gyda llif traffig dros y bont, felly rwy'n credu dylai Llywodraeth Cymru blaenoriaethu edrych i mewn i'r rhain.

Hoffwn hefyd tynnu sylw tuag at Argymhelliad 7 i gynyddu amllder o drenau'n galw yn Llanfair PG. Fel hyrwyddwr cryf dros reilffyrdd, rwy'n credu bydd hyn yn elwa'n fawr i hyrwyddo sifft foddol tuag at drafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig tuag at drenau, bydd, yn y pen draw, yn cael effaith positif ar newid hinsawdd.

Ar y pwyntiau penodol wnaeth y Comisiwn wneud ar Drydedd Bont dros y Fenai, hoffwn ddiolch iddynt am ychwanegu hwn yn eu hadroddiad ac ar eu dealltwriaeth bod yna resymau dros adnewyddu'r cynllun yn y dyfodol, â chyfeiriad tuag at ddatblygiadau potensial yn Wylfa Newydd hoffwn hefyd ychwanegu fy nghefnogaeth gan rwy'n credu'n gryf bydd Pŵer Niwclear yn bwysig iawn i ddatgarboneiddio cynhyrchiad trydan. Rwy'n deall bydd rhaid i unrhyw bont newydd gyrraedd 4 prawf Llywodraeth Cymru ar adeiladu ffyrdd newydd, ac os caiff hwn ei gysidro eto yn y dyfodol hoffwn gyfeirio yn ôl at fy natrysiadau personol wnes i sôn yn fy ymateb i'r Dirprwy Weinidog i gyrraedd y pwyntiau yma.

Rwy'n oll gobeithio bydd Llywodraeth Cymru yn darllen yr argymhellion o fewn yr adroddiad yma a dylai gwaith ddechrau i'w gweithredu o ddifri.

Er ei fod tu allan i gwmpas cyffredinol fy neiseb, hoffwn hefyd gwneud sylw byr ar adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, yn benodol ar eu pwyntiau am reilffyrdd.

Ar dudalen 36 o'r adroddiad, maent yn gwneud y sylw "Nid ydym yn cefnogi ailsefydlu rheilffyrdd yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd." Rwy'n credu bod hyn yn sylw siomedig iawn gan y Comisiwn a hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru os maent yn cytuno hefo'r pwynt penodol yma. Mae gwaith anhygoel wedi digwydd yn barod gan wirfoddolwyr i glirio'r lein hen rhwng Amlwch a Gaerwen ar Ynys Môn, felly rwy'n siomedig iawn i ddarllen sylwadau'r Comisiwn y byddent yn cefnogi troi'r ased gwerthfawr yma i mewn i lwybr Teithio Llesol.

Yn ogystal, mae'n gwbl siomedig hefyd am eu sylwadau nad ydynt yn cefnogi agor gorsafoedd newydd yng Ngogledd Cymru, oni bai'r orsaf yng Nglannau Dyfrdwy, gan fod llawer o gymunedau ledled Gogledd Cymru heb fynediad hawdd i'r rhwydwaith rheilffordd genedlaethol. Mae sylwadau fel y rhain dim ond yn cryfhau'r gred bod arian yn cael ei wario yn Ne Cymru tra bod y Gogledd yn colli allan ar gyfleoedd buddsoddiad da.

Er bod y pwyntiau yma ar wahân i beth roedd fy neiseb wreiddiol yn sôn am, rwy'n credu bod cyfeirio atynt yn bwysig gan all yr adroddiad arwain at golli cyfleoedd buddsoddi yng Ngogledd Cymru fel mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd.

Rwy'n edrych ymlaen at wylio'r ddadl yn y Pwyllgor Deisebau ar y 29ain o Ionawr.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Emyr Owen', written in a cursive style.

Emyr Owen

Eitem 3.5

P-06-1357 Llundun Cynllun Gweithredu Microblastigau newydd i Gymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Friends of the Earth Cymru, ar ôl casglu cyfanswm o 3,259 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae gronynnau microblastig wedi'u canfod o gopaon y mynyddoedd uchaf i ddyfnderoedd eithaf y cefnforoedd, ac amcangyfrifir bod microffibrau plastig o'r dillad rydym yn eu gwisgo yn cyfrif am tua 35 y cant o'r holl lygredd plastig yn ein moroedd a'n cefnforoedd.

Canfuwyd bod microblastigau yn wenwynig i fywyd morol ac mae tystiolaeth gynyddol yn awgrymu eu bod yn niweidiol i fywyd ar dir, gan gynnwys ni ein hunain.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio Cynllun Gweithredu Microblastigau newydd i warchod bywyd yn ein moroedd ac ar ein tir.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae microblastigau yn deneuach na blew dynol ond maent yn achosi problemau mawr i fywyd yn ein cefnforoedd ac ar y tir.

Maent yn dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys poteli plastig, teiars cerbydau a hyd yn oed o baent ar adeiladau a marciau ar y ffyrdd.

Maent hefyd yn yr aer ac yn ein cadwyn fwyd. Mae darnau hyd yn oed wedi'u canfod yn y gwaed mewn 8 o bob 10 o bobl, ac nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith hyn ar ieuchyd:

<https://www.theguardian.com/environment/2022/mar/24/microplastics-found-in-human-blood-for-first-time>

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o weithredu ar blastigau ond mae lle i wneud mwy i ymdrin â microblastigau.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr perthnasol i lunio Cynllun Gweithredu Microblastigau i gynnwys camau fel ymdrin â'r microffibrau plastig sy'n cael eu rhyddhau a llygredd microblastigau ar dir ac mewn cyrsiau dŵr o amgylch Cymru, yn ogystal ag addysgu am y materion hyn mewn ysgolion.

Mae llygredd microblastigau yn broblem fawr yng Nghymru - rhaid inni fynd i'r afael ag ef.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1357
Ein cyf/Our ref JJ/02776/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

22 Tachwedd 2023

Annwyl Jack Sargeant,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1357 sy'n gofyn a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr perthnasol i lunio Cynllun Gweithredu Microblastigau i Gymru, a hefyd ystyried sefydlu grŵp arbenigol i gynghori ar broblem microblastigau.

Rwyf yr un mor bryderus am yr effaith y mae microblastigau yn ei gael ar ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n bioamrywiaeth. Fel yr eglurwyd yn fy ymateb blaenorol, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â llygredd plastig ac rydym yn falch o'r mesurau sydd gennym ar waith, megis Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, a hefyd rhai o'r mesurau diweddaraf sydd gennym ar y gorwel megis y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle a ddaw i rym ym mis Ebrill 2024, a'r gwaith rydym yn parhau i'w wneud i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

Fel y gwyddoch o'm hymateb blaenorol, rydym hefyd wedi gweithio ar draws llywodraethau i ddatblygu Safon Brydeinig i atal colli pelenni plastig i'r amgylchedd yn ystod cyfnod cynhyrchu a chludo cylch bywyd plastigau, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r DU a Llywodraethau Datganoledig i ddatblygu dangosydd microblastigau ar gyfer ein moroedd. Yn ogystal, rydym hefyd yn chwilio am gyfleoedd i ddylanwadu ar y trafodaethau sy'n digwydd yn y Cenhedloedd Unedig i ddatblygu cytundeb byd-eang ar blastigau.

Rwy'n gwerthfawrogi bod fy ymateb blaenorol wedi'i gyfyngu i'r camau gweithredu o fewn fy mhortffolio Gweinidogol. Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi nawr am weithgareddau ar draws Llywodraeth Cymru. Er hwylustod cyfeirio, rhestrir hwy yn y drefn a ymddangosodd yng ngohebiaeth y deisebydd:

Llygredd microplastig ar dir fferm

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraethau eraill y Deyrnas Unedig ar ddatblygu cyfundrefn reoleiddio gwrtaith ddiwygiedig, a fydd yn rhoi ystyriaeth i reolaethau ar ficroblastigau mewn deunyddiau sydd i'w rhoi ar dir. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud o dan y Fframwaith Gwrtaith Cyffredinol. Cafodd y Fframwaith Gwrtaith Cyffredinol ei ddrafftio i gefnogi rheoleiddio gwrtaith yn effeithiol ledled y DU ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, mae'n cefnogi gweithredu deddfwriaeth a ddargedwir yr UE, deddfwriaeth ddomestig, yn ogystal â phrosesau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau rhwng pedair llywodraeth y DU mewn perthynas â gwrtaith. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ystyried y rheolaethau a gyflwynwyd yn yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â phlastigau gyda deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar dir, gan gynnwys Rheoliad (UE) 2019/1009 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Mehefin 2019 sy'n gosod rheolau ar sicrhau bod cynhyrchion gwrtaith ar gael ar farchnad yr UE.

Diffyg profion ar gyfer microblastigau yng Nghymru

Mae microblastigau yn cael effaith ecotocsicolegol ar fywyd dyfrol ac maent hefyd yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ehangach. Mae deall presenoldeb microblastigau mewn dŵr yfed yn bryder ac fe'i ystyrir wrth ddatblygu polisiau gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad mwyaf cynhwysfawr yn y DU ar ficroblastigau mewn dŵr yfed gan UK Water Industry Research (UKWIR) yn 2019 ac mae ar gael i'w weld yn [https://ukwir.org/view/\\$NvDnwfm](https://ukwir.org/view/$NvDnwfm). Canfu ymchwil UKWIR fod mwy na 99.9% o ficroblastigau yn cael eu tynnu o ddŵr yfed a dŵr gwastraff trwy brosesau trin cwmnïau dŵr. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen mwy o ymchwil i ddeall effaith lawn llygredd plastig ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

Ar hyn o bryd nid oes gofyniad statudol i brofi microblastigau mewn cyrff dŵr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r grŵp Bygythiadau Cemegol sy'n Dod i'r Amlwg i Ansawdd Dŵr, a reolir gan Lywodraeth Cymru, yn ystyried rôl microblastigau fel rhan o'u nod ehangach i nodi sylweddau cemegol a phroblemau cysylltiedig sy'n fygythiad i ansawdd dŵr yng Nghymru.

Peiriannau Golchi Dillad

Byddai unrhyw benderfyniad i ddilyn Ffrainc a deddfu ar gynhyrchu peiriannau golchi gyda hidlwyr microblastig yn nwylo Llywodraeth y DU.

Sector addysg

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn darparu y dylai pob ysgol sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod gwisgoedd ysgol ail-law ar gael i ddisgyblion eu caffael. Gall gwisgoedd ail-law fod o fudd i bob rhiant, yn enwedig y rhai ar incwm isel. Hefyd, drwy estyn oes dillad, gall ysgolion annog cynaliadwyedd a'i fanteision amgylcheddol ehangach.

Dylai ysgolion hyrwyddo cynaliadwyedd a buddion amgylcheddol ailgylchu gwisg ysgol wrth hysbysebu eu trefniadau gwisg ysgol ail-law.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad gennym ar bolisi gwisg ysgol ynghylch newidiadau arfaethedig i'n canllawiau statudol yma yng Nghymru. Derbyniodd yr ymgynghoriad nifer uchel iawn o ymatebion gan randdeiliaid.

Dangosodd ymatebion o'r ymgynghoriad gryn alw am gadw gwisgoedd ysgol gan y gall gwisg ysgol ddarparu ymdeimlad o hunaniaeth, cymuned a chydlyniant o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno na ddylai fod angen logos. Roedd bron i 90% o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai ysgolion osgoi cytundebau cyflenwyr sengl; ac roedd consensws cyffredinol bron y dylai ysgolion weithredu cynlluniau cyfnewid neu ailgylchu unffurf.

Mentrau Cymunedol

Mae gan aildddefnyddio ac atgyweirio rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni ein huchelgeisiau dim gwastraff fel yr amlinellir yn ein strategaeth economi gylchol [Tu hwnt i ailgylchu](#), gyda'r potensial i arbed cannoedd o filoedd o dunelli o wastraff.

Rydym hefyd wedi sefydlu rhaglen aildddefnyddio ac atgyweirio, y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i gefnogi datblygiad diwylliant cyffredinol o aildddefnyddio, atgyweirio ac ailgynhyrchu o fewn ein cymunedau a chanol ein trefi.

Drwy'r rhaglen hon rydym yn cefnogi nifer o fentrau sy'n galluogi cymunedau lleol i atgyweirio, ailgylchu, ail-bwrpasu a rhentu eitemau i'w defnyddio cyhyd â phosibl, megis Caffis Atgyweirio, aildddefnyddio cyfleusterau a Llyfrgelloedd Pethau. Mae hyn yn lleihau nifer y deunyddiau crai a'r ynni sydd ei angen i gynhyrchu cynnyrch newydd ac felly allyriadau carbon, gan hefyd fagu sgiliau, cryfhau gwytnwch cymunedol, a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

Cymorth busnes a deunyddiau amgen

Mae Busnes Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth amrywiol ar arferion, polisiâu gwyrdd a defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ogystal â gweithdai. Mae Ymgynghorwyr Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon ar gael i helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac i weithio gyda busnesau i greu busnes cadarn sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae'r Addewid Twf Gwyrdd yn rhan o'r cymorth arbenigol ar gynaliadwyedd sydd ar gael drwy Busnes Cymru, ac mae'n agored i bob busnes bach a chanolig yng Nghymru ym mha bynnag sector o ddiwydiant. Mae'n ffordd ymarferol i fusnesau ddangos yr effaith gadarnhaol maen nhw'n ei chael ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas, ac i ymuno â chymuned sy'n prysur gynyddu o sefydliadau blaengar.

Mae yr ymgyrch Gweledigaeth Werdd yn helpu busnesau i wella eu gwybodaeth am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a'u dealltwriaeth o hynny. Mae'r [ymgyrch](#) yn annog busnesau i gymryd camau i leihau eu heffaith ar newid hinsawdd, ac mae'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru tuag at economi sero net. Mae'n ffordd ymarferol i fusnesau ddangos yr effaith gadarnhaol maen nhw'n ei chael ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas, ac i ymuno â chymuned sy'n prysur gynyddu o sefydliadau blaengar. Mae adran newydd [Cost Gwneud Busnes](#) yn cael ei datblygu ar wefan Busnes Cymru, er mwyn dod â chynnwys ac adnoddau at ei gilydd i helpu busnesau i leihau eu defnydd o adnoddau a chostau. Bydd yr adran hon yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw gyngor a chefnogaeth i fusnesau yn y dyfodol.

Ffynonellau eraill o blastig

Gall microblastigau godi o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys o dorri cynhyrchion mwy i lawr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ar 30 Hydref 2023, bwriedir i waharddiadau ar gynhyrchion plastig untro cyffredin ddod i rym gan gynnwys:

- Cwpanau plastig untro
- Platiau plastig untro
- Troellwyr diodydd plastig untro
- Gwellt yfed plastig untro – mae eithriad yn y cynnyrch hwn ar gyfer anghenion ieuchyd
- Ffyn cotwm coesyn plastig untro
- Ffyn balŵn plastig untro
- Cynwysyddion bwyd cyflym polystyren ymestynedig ac ewynnog
- Cwpanau polystyren ymestynedig ac ewynnog.

Dyma gam cyntaf ein cynlluniau i fynd i'r afael â llygredd plastig trwy ddileu cynhyrchion plastig untro diangen.

Ar hyn o bryd rydym yn ceisio barn ar gynigion i gyflwyno gwaharddiadau tebyg ar gyfer weipiau gwlyb gyda chynnwys plastig mewn ymgynghoriad cyhoeddus ledled y DU. Bydd hyn yn cau ar 25 Tachwedd 2023.

Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno gwaharddiadau ar gaeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion bwyd cyflym, bagiau a chynhyrchion plastig untro tenau wedi'u gwneud o blastig oco-so-ddiraddadwy erbyn gwanwyn 2026.

Rydym hefyd yn gweithio gyda llywodraethau ledled y DU i ddatblygu polisi amgylcheddol ar feps tafladwy, sydd hefyd yn aml yn creu sbwriel.

Plastig morol

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu dangosydd microblastigau ar gyfer yr amgylchedd morol a fydd y cyntaf o'i fath. Bydd y dangosydd hwn yn rhan o'n hasesiad ar gyfer lefelau sbwriel morol yn yr amgylchedd morol a'n gallu i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cynllun ailgylchu offer pysgota diwedd oes sydd bellach yn gweithredu mewn nifer o borthladdoedd. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i bysgotwyr waredu eu hoffer yn gynaliadwy ac unrhyw offer sy'n sbwriel a allai fod yn y môr. Mae hyn yn lleihau'r risg y bydd offer yn cael ei golli a'i adael yn y môr gan arwain at dorri'r offer i lawr ymhellach i rannau llai neu ficroblastigau.

Yn olaf, rwy'n cydnabod ac yn deall bod y deisebydd yn teimlo bod mwy o bethau y mae angen i ni eu hystyried i fynd i'r afael â phroblem microblastigau. Rwy'n cytuno y gallai galwad am dystiolaeth fod yn ddefnyddiol i nodi'r gwahanol ffynonellau llygredd microblastig ac i helpu i gynnig atebion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd ymagwedd benodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at y broblem. Ar hyn o bryd, credaf y bydd parhau i ganolbwyntio ar gyflawni camau ymarferol, fel y nodir yn y llythyr hwn, yn cael mwy o effaith bendant na datblygu Cynllun Gweithredu. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion drefnu cyfarfod gyda'r deisebydd i drafod y mater ymhellach.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**P-06-1357 Draw up a new Microplastics Action Plan for Wales –
Correspondence from the Petitioner to Committee, 22 January 2024**

Dear Senedd Petitions Committee,

Many thanks for the opportunity to comment further on the Minister's latest response to our Microplastics petition and our request to them to facilitate an expert group in Wales to help draw up a new Microplastics Action Plan for Wales.

We would first like to acknowledge that Welsh Government has done, and is also doing, some good things around waste management, plastics and also microplastics, either at a Wales level or as part of wider UK level initiatives.

We would however also suggest that the Minister's delay in replying in detail, whilst she and her officials gather evidence from other departments, highlights our point exactly. Responsibility for different plans, strategies, work streams and initiatives which all have an impact on microplastics release, rests across many different Welsh Government Departments and Divisions. We would argue that the issue of microplastics is such an important one, both environmentally and also from a human health point of view, that a co-ordinated plan and approach are needed across Welsh Government that would allow the issue to be dealt with in a strategic and joined up way, rather than being left to a wide variety of different Departments and strategies to 'hopefully' cover most of the issues.

One key point that the Minister admits, and one which we know as result from Freedom of Information requests is that there is no statutory requirement to test for microplastics in water bodies in Wales. We would strongly suggest that this is of utmost importance to establish what exactly the scale of the problem is, where the microplastics are coming from and to therefore establish a baseline against which we can then test in future to see if we are being successful in reducing the release of microplastics to the environment in Wales.

A new Microplastics Action Plan for Wales would go a long way to ensure that this would be a part of a more joined up and thought through strategic look at microplastics and would establish targets and milestones and cross departmental working.

There are also some other key points to draw out of the Minister's response.

Again, we do of course welcome the positive initiatives and strategies that Welsh Government are working on but we would like to make the point very clearly that there are an awful lot of other things we feel that Welsh Government can do on microplastics. This is why an expert group of organisations such as Welsh Water, National Federation of Women's Institutes Wales and many others, as well as prominent academics active in the field in Wales would be of huge benefit in helping draw together a more comprehensive plan.

Just to highlight one or two, the Minister mentions fertilisers. We know through work Cardiff University has done (<https://www.cardiff.ac.uk/news/view/2623372-european-farmland-could-be-biggest-global-reservoir-of-microplastics,-study-suggests>) that farmland can contain huge amounts of microplastics derived from sewage sludge. Fertilisers are a devolved issue (Page 1 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61fa82c9d3bf7f78dc2cd9de/fertilisers-provisional-common-framework.pdf>) so we in Wales could develop our own

standards of testing and regulating microplastic content in sewage sludge applied to farm land in Wales for example. This may or may not be done anyway but again, further highlights the need for a wider ranging new Action Plan.

The announcement that schools will be encouraged to provide a school uniform swap shop to pupils throughout Wales is a very positive one which we campaigned for. We have, since the announcement was made, been trying to contact Welsh Government officials to follow up on this announcement to offer our help and enquire how exactly the scheme will work. We have yet to receive a response unfortunately.

The Minister's response also mentions community schemes which are all very positive and really good to see but there are also other community schemes which could be supported, trialled and scaled up to cover all of Wales such as the excellent Play it Again Sport scheme in RCT.

In our original recommendations report (<https://foe.cymru/sustainable-fashion>), we also highlight the type of support that Welsh SME sustainable fashion businesses would like to see offered. An action plan would allow some of these to also be considered as to how they are able to help reduce microplastic pollution.

We know for example that there is a wonderful opportunity in Wales to encourage the use of Welsh wool in sustainable fashion. Wool is a sustainable material and is produced in Wales, helping to sustain farming and rural economies and culture. We also know unfortunately that the wool industry has been struggling in recent years and needs help. Surely, part of some overall joined up thinking should be to look at how we can support farmers and the Welsh Wool industry to supply quality wool to sustainable fashion businesses and thereby create a win-win situation.

Another alternative material that needs to be investigated is Hemp. It can be grown in Wales, has a huge variety of positive uses and is an excellent sequester of CO2 too. If we are being truly forward thinking, we should really be looking in to how we could support farmers to diversify into hemp if they wish and to then supply that hemp to sustainable fashion businesses in Wales. It is all part of the same issue as these alternative materials don't in turn then release plastic microfibrils.

The Minister also mentions that they have trialled an end-of-life fishing gear scheme. This was a trial in 6 harbours (<https://businesswales.gov.wales/marineandfisheries/information-and-statistics/marine-litter#:~:text=End%20of%20life%20fishing%20gear%20scheme,associated%20with%20applicable%20gear%20types>). Whilst this is obviously a great initiative, it is important that this is rolled out further across Wales, beyond the original 6 harbours, and supported. Again, this is exactly why an overarching Microplastics Action Plan is needed to help bring together all the findings, set targets and assess success rates in a joined-up way alongside all the other strategies and initiatives. Otherwise it risks being a stand-alone piece of work.

Lastly, we would like to again make the point that microplastics (and nano plastics) are increasingly found in humans with associated health concerns (<https://weather.com/science/environment/news/2024-01-19-some-microplastics-travel-farther-in-atmosphere>), (<https://www.washingtonpost.com/climate-solutions/2024/01/12/microplastics-fish-chicken-tofu-protein/>),

[\(https://www.newscientist.com/article/2412529-fertilisers-are-a-major-source-of-microplastic-pollution-in-soil/\)](https://www.newscientist.com/article/2412529-fertilisers-are-a-major-source-of-microplastic-pollution-in-soil/), [\(https://www.independent.co.uk/climate-change/news/plastic-pollution-food-fish-meat-b2476377.html\)](https://www.independent.co.uk/climate-change/news/plastic-pollution-food-fish-meat-b2476377.html), [\(Doctor says he won't drink bottled water over plastic health fears - Wales Online\)](#).

In fact, there are now just so many news articles, stories and academic studies on the issue that national governments need to realise the scale of the issue and work in a more co-ordinated way when assessing and planning for all the various solutions.

This is probably THE key issue - as it is such a constantly and quickly evolving area of work, having an expert group of Welsh academics, relevant organisations and others, helping bring together all the latest evidence and helping formulate longer term strategies and plans across a wide range of different areas, would surely be a common sense and timely initiative?

We realise that Welsh Government are short on capacity but an expert group could really help in this regard and help with the necessary work.

Given the obvious scale of the problem, we feel that asking Welsh Government to facilitate a new expert group on microplastics and asking them to work with Welsh Government on a new co-ordinated Microplastics Action Plan is both a relevant, timely and proportionate ask.

Yours sincerely

On behalf of Sustainable Clothing and Textiles Cymru

P-06-1366 Adfer y cyllid ar gyfer gwasanaethau Bysiau Cwm Taf 351 (Dinbych-y-pysgod i Bentywyn) a 352 (Dinbych-y-pysgod i Gilgeti)

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Melanie Mallin, ar ôl casglu cyfanswm o 1,697 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Bysiau Cwm Taf wedi rhedeg y gwasanaethau 351 a 352 ers mis Mehefin 2016. Maent wedi cael eu cefnogi gan gyllid Llywodraeth Cymru i helpu gyda diffygion ariannol. Yn anffodus, mae'r cyllid hwn nawr yn cael ei dynnu yn ôl, sy'n golygu bod y gwasanaethau yn anghynaliadwy yn ariannol. Ar ben hynny, gall bws dau lawr to agored, gan weithredwr bysiau cenedlaethol mawr, weithredu rhwng Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot ar sail fasnachol bob dydd rhwng y Pasg a diwedd yr haf, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y busnes teuluol bach lleol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1366
Ein cyf/Our ref LW/03095/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 28 Medi ynglŷn â 'Deiseb P-06-1366 Adfer y cyllid ar gyfer gwasanaethau Bysiau Cwm Taf 351 (Dinbych-y-pysgod i Bentywyn) a 352 (Dinbych-y-pysgod i Gilgeti)'.

Rwy'n falch o nodi bod Cyngor Sir Penfro wedi gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth bws amgen o dan gontract sy'n cysylltu Dinbych-y-pysgod â Pentywyn trwy Saundersfoot, sef gwasanaeth rhif 351. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn ystod dyddiau'r wythnos dros fisoedd y gaeaf, ond yn ystod yr haf darperir teithiau ychwanegol ar ddydd Sadwrn.

Yn y cyfamser, mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Chyngor Sir Penfro a'r awdurdodau lleol cyfagos ar draws de-orllewin Cymru i ddatblygu cynllun bysiau rhanbarthol i wella ymhellach wasanaethau ar draws y rhanbarth

Yn gywir,

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 110
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-06-1370 Achub y ddarpariaeth mân anafiadau dros nos yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Richard John, ar ôl casglu cyfanswm o 5,182 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi nodi ei fod yn bwriadu cau ei Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Nevill Hall dros nos. Bydd hyn yn golygu mai dim ond un Uned Mân Anafiadau fydd ar agor rhwng 1am a 7am yn ardal gyfan y bwrdd iechyd – yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Byddai'r newid hwn yn cynyddu amseroedd teithio yn sylweddol i drigolion ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen a rhannau o Gaerffili. Byddai'r newid yn gwneud Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty y Faenor yn fwy prysur fyth.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae'r bwrdd iechyd wedi cychwyn ymgynghoriad ar y cynnig:

<https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-ymgyngori-cyhoeddus/cyfleoedd-presennol/ymgysylltiad-8-wythnos-ar-ddarparu-gwasanaethau-uned-man-anafiadau/>.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

Ann Lloyd CBE, Cadeirydd | Chair

☎ 01633 435 957

✉ Ann.Lloyd@wales.nhs.uk

Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr | Chief Executive

☎ 01633 435 958 ✉ CEOabuhb

✉ Nicola.Prygodzicz@wales.nhs.uk



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Our ref: **ABUHB 23-131**

Your ref: **P-06-1370**

22 December 2023

Jack Sargeant MS
Chair of the Petitions Committee

Sent by email: petitions@senedd.wales

Dear Jack Sargeant MS

Petition P-06-1370 Save overnight minor injuries provision at Nevill Hall Hospital in Abergavenny

Thank you for your email of 29 November 2023, which outlines that you are currently considering the above petition. As requested, I write to confirm the timescales for decision making that we will be taking following the public engagement on the proposals.

Providing that we receive feedback from Llais on the proposals in line with Welsh Government's guidance on changes to health service, we expect to take this matter to the Board for a decision at its meeting of 24 January 2024. If the feedback is not received in time for that meeting the matter will be considered by the Board at its meeting in March 2024.

I trust that this response is helpful. However, if you have any further questions, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely

Nicola Prygodzicz
Prif Weithredwr | Chief Executive

P-06-1370 Save overnight minor injuries provision at Nevill Hall Hospital in Abergavenny - Petitioner to Committee, 24.01.24

I note that the health board is meeting this morning to make it's decision about the future of the minor injuries unit at Nevill Hall and considering a recommendation for overnight closure. I'm appalled at the decision, taken in the face of considerable public opposition, but I suppose this means the end of the campaign to keep it open.

I'm very grateful for the time and consideration of members of the Petitions Committee and to all those Senedd Members who offered their support to the campaign to keep it open. I am disappointed that the Welsh Government has failed to intervene and I remain concerned that this will have harmful consequences for residents in north Monmouthshire as well as in neighbouring local authorities.

Thank you once again to committee members for their support.

Best wishes,

Eitem 3.8

P-06-1373 Dylid atal Llywodraeth Cymru rhag gwastraffu £4 miliwn ar ddatblygiad preifat "Skyline" ar Fynydd Cilfái, Abertawe.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Neil Jones, ar ôl casglu 2,109 lofnodion ar-lein a 942 lofnodion ar bapur, sef cyfanswm o 3,051 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r cynlluniau ar gyfer .skyline yn cynnwys preifateiddio man cyhoeddus agored ar gyfer prosiect na wŷr neb a fydd yn llwyddo ai peidio. Bydd cyfranddalwyr y cwmni preifat hwn yn elwa ar y chwistrelliad mawr hwn o arian, ond mae perygl iddo greu difrod amgylcheddol mawr, a hynny heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant y fenter yn yr hirdymor.

Goblygiadau'r cais yw y caiff amwynder natur lleol a ddefnyddir yn helaeth ei golli. Dylid gweithredu mewn modd gwell, sef: Defnyddio cynlluniau presennol i warchod a gwella bioamrywiaeth y rhan wyllt hon o Abertawe. Mae grant arian mawr ar gyfer dim budd penodol yn annoeth.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Trodd llygredd gwenwynig a ddeilliodd o orffennol diwydiannol metel trwm Abertawe ein bryniau'n dir diffaith, nes yn 70au'r ganrif ddiwethaf, dechreuodd partneriaeth rhwng ein Cyngor a'r Brifysgol ei drawsnewid yn raddol yn goetir pinwydd, oherwydd dyna'r unig rywogaeth a allai dyfu yno. Dechreuodd y gymuned leol ac ysgolion gyfrannu bryd hynny, ac mae hyn wedi parhau hyd heddiw oherwydd mae grŵp gwirfoddol yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddad-ddofi'r coetir fel bod rhywogaethau a chreaduriaid cynhenid bellach yn ffynnu.

Rydym yn falch bod ein coetir yn cael ei adnabod fel yr enghraifft orau o goetir trefol wedi'i adfywio yng Nghymru, ac mae gan bobl leol feddwl y byd ohono fel lle arbennig i fwynhau'r gwyrddni a'r awyr iach ar ochr ddwyreiniol y ddinas. Mae'r ardal hefyd yn ystafell ddosbarth awyr agored ar gyfer ysgolion lleol. Os oes arian i'w wario, gadewch i ni gael rheolaeth o'r coetir,

Ilwybrau, gwaith cynnal a chadw Ilwybrau, ceidwaid, hynny yw, pethau nad ydym wedi'u cael ers 25 mlynedd!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Abertawe
- Gorllewin De Cymru



Jack Sargeant MS

VIA EMAIL

Please ask for: Councillor Rob Stewart
Direct Line: 01792 63 6366
E-Mail: cllr.rob.stewart@swansea.gov.uk
Our Ref: RS/CM
Your Ref:
Date: 29th December 2023

Dear Mr Sargeant,

Re: Petition P-06-1373 Stop Welsh Government Wasting £4million on Skyline private development Kilvey Hill, Swansea

Thank you for your letter dated 29 November 2023, regarding consideration being given by the Senedd's Petitions Committee to the abovementioned petition.

After reading the correspondence from the Petitioner (attached), I don't think there is anything here for the Council to answer, the content of the petition is directed purely at Welsh Government. The petitioner is requesting that the Welsh Government undertakes a re-evaluation of the Welsh Industrial Development Advisory Board's (31) report on the proposed Skyline Development. Furthermore, the petitioner is requesting that Welsh Government finds a better, more collaborative approach to find a sustainable path for Kilvey Hill that respects both community desires, environmental imperatives, and the well-being of the community in this area of high deprivation.

As an update the Council has agreed in principle to provide a serviced site and provide grant funding to Skyline for the Project, subject to internal and external governance, and the Council's terms being met. Going forward in the New Year the Council will progress the Public Open Space Notice for an area of land on Kilvey Hill that will be required to facilitate the Project.

Concerns have been raised about access to Kilvey Hill once the Project is completed, but to negate any misinformation free and unhindered public access to the hill will remain. All current walking and mountain bike tracks will remain as they are with improvements made to those existing paths and trails. The scheme will allow for increased access to the hill's peak through wheelchair and pram accessible Gondolas.

Skyline has advised the cost of the Project has increased to £40m, this has not dissuaded Skyline from pushing forward with the Project and now has a

Tudalen y pecyn 116



live planning application, which can be found by following this [link](#). The all-weather facility will operate throughout the year, creating a 100 jobs in the first year and providing both local people and visitors to Swansea the opportunity to enjoy the thrills of these gravity based rides, which will include 1.5 miles of luge tracks, zip line and sky swing.

What may be of assistance to you is a recent Skyline Update Report prepared for The Service Improvement, Regeneration and Finance Scrutiny Performance Panel held on 14 November 2023, the report can be found by following this [link](#) and then go to Agenda Item 33. In addition, please see the links to the Council's and Skyline's FAQs, <https://swansea.gov.uk/skylinefaqs> / <https://www.skylineswansea.co.uk/> (scroll to the bottom of the Homepage).

Yours sincerely



**Y CYNGHORYDD/COUNCILLOR ROB STEWART
ARWEINYDD/LEADER**

P-06-1373 Stop Welsh Government Wasting £4million on Skyline private development Kilvey Hill, Swansea – Petitioner to Committee, 23 January 2024

Dear Kayleigh Imperato and Members of the Petitions Committee,

We have reviewed the response received from Swansea Council. While we acknowledge the information provided, we find it lacking in substantial engagement with the core issues raised by our committee statements to ask Swansea council for details on acknowledgement of skyline opposition and how Swansea council they intend to engage. It is imperative that the council recognises the significant opposition to the Skyline project and the profound concerns we have regarding its potential environmental, social, and economic impacts.

In light of this, we respectfully request that the council be asked again to:

Recognise and Acknowledge Opposition: Explicitly acknowledge the extent of community opposition to the Skyline project, as demonstrated by the petition and various community surveys and consultations.

Engagement and Consultation Plans: Clearly outline their intentions and plans for engaging with the opposition. This should include specific strategies for how they intend to address the concerns raised, particularly regarding environmental preservation, community access to Kilvey Hill, and the long-term sustainability of the project.

We believe that only through genuine and constructive engagement can a resolution be found that respects the community's needs, the environmental importance of Kilvey Hill, and the principles of sustainable development.

It also must not be forgotten that the petition was raising concerns at Welsh Government money being spent on this and the relevant people there also need to be asked to justify their attitudes in regard to public opposition.

We look forward to the opportunity to present our concerns at the meeting on 29 January and hope for a meaningful dialogue with both the council and the committee.

Thank you for your attention to this matter.
Yours sincerely,

Neil Jones
Biodiversity Campaigner
Swansea Friends of the Earth